**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Adroddiad Adolygiad Perfformiad 2013-14

**Rhifyn I**
**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14**

professional standards authority

## Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac Adroddiad Adolygiad Perfformiad 2013-14 yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Rhifyn I: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013-14

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â rhestr 7, paragraff 16 (2) y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban dan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Gogledd Iwerddon yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Gorchymynnwyd i'w argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 26 Mehefin 2014.

professional standards authority

HC 197-I
SG 2014/93

Rhifynnau ddim i'w gwerthu ar wahân

**© Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2014)**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ac eithrio, pan fyddant yn bresennol, yr Arfau Brenhinol a phob logo adrannol ac asiantaeth) am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng ar yr amod eu bod yn cael eu hatgynhyrchu yn gywir heb fod mewn cyd– destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a nodi teitl y ddogfen. Pan fydd deunydd gan bartïon eraill wedi ei ddynodi, rhaid cael caniatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau parthed y cyhoeddiad hwn atom yn **Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol, 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain SW1W 9SP.**

Mae’r cyhoeddiad ar gael i’w lawrlwytho yn **www.gov.uk**

Mae’r cyhoeddiad hefyd ar gael o’n gwefan ar **www.professionalstandards.org.uk**

ISBN Print 9781474102278
ISBN y We 9781474102285

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

PO ID 1542014 06/14

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys lleiafswm o 75 y cant o gynnwys ffibr wedi ei ailgylchu.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad y Cadeirydd ........................................................ 1
2. Adroddiad strategol ........................................................ 2
3. Adroddiad y Prif Weithredwr ........................................................ 14
4. Adroddiad tâl ........................................................ 33
5. Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ............. 37
6. Datganiad llywodraethu ........................................................ 38
7. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinoli'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ...... 49
8. Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ........................................................ 52
9. Datganiad o safle ariannol ar 31 Mawrth 2014 ................................ 53
10. Datganiad llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ........................................................ 54
11. Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ........................................ 55
12. Nodiadau i'r cyfrifon ........................................................ 56

# 1. Cyflwyniad y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi sefydlu ein hunain yn gadarn fel yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac wedi llwyddo i weithredu'r holl gyfrifoldebau a roddwyd i ni yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

Mae iechyd a lles cleifion ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn a wnawn; er y gallai trosolwg rheoleiddiol ymddangos i fod yn bell a thechnegol ar adegau, ein gwir ddiben yw gwella rheoleiddio er lles y cyhoedd.

Mae'r Awdurdod wedi cynnal ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer trosolwg o naw o reolyddion. Cyhoeddom ein hadroddiadau archwilio rhwng Medi 2013 a Mawrth 2014 ac mae ein hadroddiad adolygiad perfformiad ar gyfer 2014 yn cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Mae'r rheolyddion wedi dal i weld cynnydd mewn cwynion ac mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar ein gwaith. Rydym wedi adolygu 3,566 o achosion yn y 12 mis a drafodir yn yr adroddiad hwn.

I ddiogelu'r cyhoedd, rydym wedi cyflwyno mwy o apeliadau i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau paneli addasrwydd i ymarfer y rheolydd nag yn y rhan fwyaf o'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y gellir dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn ag ansawdd cyffredinol penderfyniadau a wneir gan y paneli o'r cynnydd hwn mewn apeliadau, gan mai dim ond cyfran fechan iawn o'r cyfan maent yn cynrychioli.

Mae gan ein Cynllun Cofrestrau Gwirfoddol Achrededig newydd 10 cofrestr achrededig yn cwmpasu 24 o alwedigaethau a 47,000 o gofrestrwyr unigol. Mae'n profi i fod yn ddeniadol i ddeiliaid cofrestrau a'u cofrestrwyr yn ogystal â'r cyhoedd a chyflogwyr sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Rydym hefyd yn parhau i gyfrannu i bolisi rheoleiddio. Rydym wedi cynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar Ddyletswydd Didwylledd, ac wedi rhoi tystiolaeth i Adolygiad Cavendish ar Gynorthwywyr Gofal Iechyd yn ogystal ag Adolygiad Caldicott o Lywodraethu Gwybodaeth. Rydym wedi ymateb i amrywiol ymgynghoriadau gan y rheolyddion ac eraill yn cynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru *Dyfodol Rheoleiddio ac Arolygu Gofal a Chymorth yng Nghymru*. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chomisiwn y gyfraith ar yr adolygiad o reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal.

Yng Ngorffennaf, cawsom ein galw i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Iechyd ac mae'n dda gennym gael rôl barhaus yn cynghori'r Pwyllgor am reoleiddio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein gwaith rhyngwladol wedi parhau i dyfu gydag adolygiadau wedi eu cwblhau ar gyfer Coleg Brenhinol Llawfeddygon Deintyddol Ontario a Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon. Mae ein staff yn cyfrannu'n rheolaidd i gynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol ac arwyddocaol i'r Awdurdod ac mae fy nyled yn enfawr i'n tîm bychan o staff ymroddedig a galluog am y modd maent wedi cofleidio datblygiadau newydd wrth ddal i gynnal safonau hynod uchel, dan arweinyddiaeth ragorol ein Prif Weithredwr, Harry Cayton.

Bydd ein Bwrdd, sydd wedi bod yn cydweithio ers chwe blynedd, yn wynebu newidiadau eleni wrth i dri aelod gwblhau eu tymor ac ymddeol. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Bwrdd am eu gwasanaeth, eu doethineb ac am eu harweiniad strategol, sydd wedi bod yn amhrisiadwy o ran galluogi'r Awdurdod i edrych yn hyderus i'r dyfodol.

**Y Farwnes Jill Pitkeathley OBE**
**Cadeirydd**

# 2. Adroddiad strategol

### Ynglŷn â’r Awdurdod Safonau Proffesiynol

#### *Pwy ydyn ni*

2.1 Sefydlwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Yr Awdurdod) ar 1 Rhagfyr 2012. Sefydlir ei rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.[1]

2.2 Mae’r Awdurdod yn parhau gyda gwaith y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE), a gyfansoddwyd dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008[2] ac a oedd yn drawsnewidiad o’r Cyngor dros Reoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd a sefydlwyd yn Ebrill 2003 gan y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.[3]

2.3 Mae gan yr Awdurdod Fwrdd sy’n cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol, y Prif Weithredwr, a benodir gan y Bwrdd.

2.4 Penodir yr aelodau anweithredol gan y Cyfrin Gyngor, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, gweinidogion Cymru a’r Alban a’r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon.

2.5 Mae’r Awdurdod yn gorff cyhoedd annosbarthedig, wedi ei ariannu trwy’r Adran Iechyd yn Lloegr a gan y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

#### *Ein rôl a beth sydd ynghlwm â hyn*

2.6 Dan y Deddfau Seneddol sy’n llywodraethu’r hyn a wnawn, mae gennym rymoedd i gyflawni detholiad o weithgareddau i hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a’r cyhoedd wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

2.7 Mae gennym ddyletswyddau a grymoedd parthed:

- Trosolwg o’r naw corff statudol sy’n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
- Darparu cyngor i, a chyflawni ymchwiliadau ar gyfer, llywodraeth
- Achredu'r cofrestrau gwirfoddol a gedwir gan reolyddion anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
- Darparu cyngor i sefydliadau eraill tebyg yn y Deyrnas Unedig a thramor.

---

1 Ar gael yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted
2 Ar gael yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/14/contents
3 Ar gael yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/17/contents

## Beth ydym yn ei wneud

### *Trosolwg o’r rheolyddion*

2.8 Mae gan yr Awdurdod rymoedd i:

- Archwilio camau cyntaf achosion addasrwydd i ymarfer ac adrodd ar ein casgliadau parthed pob rheoleiddiwr
- Arolygu canlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer terfynol a’u cyfeirio at lys os ystyriwn fod y canlyniad yn rhy drugarog ac nad yw’n diogelu’r cyhoedd
- Ymchwilio, cymharu ac adrodd ar berfformiad pob corff rheoleiddio. Gofynnir yn benodol i ni adrodd i’r Senedd ar i ba raddau mae pob corff rheoleiddio wedi cydymffurfio ag unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno i hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd
- Rhoi cyfarwyddiadau yn gofyn i gorff rheoleiddio sefydlu rheolau dan unrhyw rymoedd sydd gan y corff i wneud hynny.

2.9 Rydym yn hyrwyddo iechyd a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni hyn, rydym yn gwrando ar farn a phryderon pobl a’u hystyried wrth ddatblygu’n gwaith. Mae gennym raglen weithredol o ymgysylltu gyda chleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd.

2.10 Rydym yn cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor i arfer eu grymoedd penodi parthed y cyrff rheoleiddio, i gefnogi ansawdd penodiadau i gynghorau rheolyddion. Mewn ymgynghoriad â’r cyrff rheoleiddio, rydym wedi cynhyrchu safonau ar gyfer y Cyfrin Gyngor yn ymwneud â recriwtio a phenodiadau i gynghorau’r rheolyddion.

2.11 Rydym yn archwilio a goruchwylio gwaith y naw corff rheoleiddio sy’n gosod safonau ar gyfer hyfforddiant ac ymddygiad gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

2.12 Rydym yn hyrwyddo arfer da a rheoleiddio cyffyrddiad cywir. Rydym yn gweithio gyda’r cyrff rheoleiddio i wella ansawdd a rhannu arfer da. Er enghraifft, rydym yn rhannu pwyntiau dysgu sy’n codi o graffu achosion addasrwydd i ymarfer, ac yn trefnu seminarau i archwilio materion rheoleiddio.

2.13 Rydym yn rhannu arfer da a gwybodaeth gyda’r cyrff rheoleiddio, yn cyflawni ymchwil a chyflwyno syniadau newydd am reoleiddio i’r sector. Rydym yn gweithio’n agos gydag, ac yn cynghori, y pedair adran iechyd llywodraeth yn y Deyrnas Unedig ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal. Yn ogystal, rydym yn monitro polisi yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop.


2.14 Y cyrff rheoleiddio yw:

- **Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol** (GCC) sy’n rheoleiddio ceiropractyddion yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol** (GDC) sy’n rheoleiddio deintyddion, nyrsys deintyddol, technegwyr deintyddol, hylenyddion deintyddol,

therapyddion deintyddol, technegwyr deintyddol clinigol a therapyddion orthodonteg yn y Deyrnas Unedig

- **Y Cyngor Meddygol Cyffredinol** (GMC) sy'n rheoleiddio meddygon yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Optegol Cyffredinol** (GOC) sy'n rheoleiddio optometryddion, optegwyr cymwysedig, optegwyr sy'n fyfyrwyr a busnesau optegol yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol** (GOsC) sy'n rheoleiddio meddygon esgyrn yn y Deyrnas Unedig
- **Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol** (GPhC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- **Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a gofal** (HCPC) sy'n rheoleiddio therapyddion celf, gwyddonwyr biofeddygol, ciropodyddion/podiatryddion, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, cyflenwyr teclynnau clyw, therapyddion galwedigaethol, ymarferwyr adrannau llawdriniaeth, orthoptwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, ymarferwyr seicolegol, prosthetyddion ac orthotyddion, radiograffwyr, a therapyddion lleferydd a llais yn y Deyrnas Unedig, a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr
- **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** (NMC) sy'n rheoleiddio nyrsys a bydwragedd yn y Deyrnas Unedig
- **Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon** (PSNI) sy'n rheiddio fferyllwyr yng Ngogledd Iwerddon.

2.15 Ceir manylion y nifer sydd wedi cofrestru ym mhob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (fel yr oedd ar 31 Mawrth 2014) isod.



## Cyngor ac ymchwiliadau ar gyfer llywodraethau

### *Rheoleiddio ledled y Deyrnas Unedig; gweithio gyda'r pedwar llywodraeth*

2.16 Rydym yn cefnogi gwaith yr Ysgrifennydd Gwladol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban a'r Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon ar faterion yn effeithio ar reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac unrhyw fater yn ymwneud â phroffesiwn iechyd neu ofal.

### *Cynghori gweinidogion iechyd*

2.17 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ofyn am gyngor gennym ar reoleiddio gweithwyr iechyd ac/neu ofal cymdeithasol neu ofyn i ni ymchwilio i faterion sy'n peri gofid.

2.18 Dywed y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 pan fydd yr ardoll yn weithredol a'r Awdurdod yn annibynnol, y bydd yr Adran Iechyd a'r gweinyddiaethau datganoledig yn talu ffi i'w bennu gan yr Awdurdod ar gyfer y gwaith hwn.

2.19 Rydym yn ymgynghori â llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar ddatblygu canllawiau ar gyfer y sector. Yn ogystal, byddwn yn cadw golwg ar bolisïau rhyngwladol, yn arbennig yn Ewrop, allai effeithio ar reoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig. Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Deyrnas Unedig a thramor, gan sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau hyn ac i gryfhau ein cysylltiadau â'r partneriaid hyn.

## Achrediad o gofrestrau gwirfoddol

2.20 Mae gan yr Awdurdod rôl o ran atgyfnerthu ansawdd a diogelwch cleifion trwy osod safonau ar gyfer cofrestrau gwirfoddol a'u hachredu.

2.21 Diben y cynllun gwirfoddol yw annog datblygiad ymddygiad proffesiynol, ymarfer moesol a safonau uchel o berfformiad mewn grwpiau sy'n gysylltiedig ag, neu wedi eu tadogi i, gyflawniad iechyd a gofal cymdeithasol ble nad yw'r alwedigaeth yn cael ei rheoleiddio'n statudol.

2.22 Rydym yn darparu gwybodaeth am y cynllun achredu ar ein gwefan ac yn gweithio gyda grwpiau chwilfrydig i annog eu cyfranogiad yn y cynllun ac i'w paratoi ar gyfer achrediad.

## Cyngor a ddarperir i sefydliadau eraill

2.23 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i gyrff rheoleiddio ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai corff rheoleiddio p'un a yw eu swyddogaeth yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol neu beidio. Rhaid i'r derbynnydd dalu'r Awdurdod am y cyngor neu archwiliadau a ddarparwyd.

2.24 Yn Chwefror 2013, cawsom ein comisiynu i gyflawni adolygiad ar gyfer y Coleg Llawfeddygon Deintyddol Brenhinol Ontario. Ar eu cais, fel adolygom ac adrodd ar eu perfformiad parthed safonau rheoleiddio da wedi eu haddasu ar gyfer eu hawdurdodaeth nhw. Profodd hyn i fod yn brofiad manteisiol i'r Coleg a'r

Awdurdod ac mae wedi arwain at barhau i gyfnewid syniadau a phobl. Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

2.25 Fe'n comisiynwyd gan Fwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon i adolygu eu prosesau addasrwydd i ymarfer o ganlyniad i newidiadau i'w ddeddfwriaeth. Fe gyflwynom ein hadroddiad ym Mawrth 2014 a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

2.26 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynghori Gweinyddiaeth Bwyd ac Iechyd Hong Kong trwy Ysgol Iechyd Cyhoeddus JC Prifysgol Tsieineaidd Hong Kong ar ei ddiwygiad o reoleiddio gweithwyr iechyd yn Hong Kong.

2.27 Rydym wedi cyfrannu i gynadleddau a seminarau rhyngwladol, yn cynnwys International Society for Quality in Healthcare, National Network of Canadian Regulatory Authorities, World Health Executive Forum, European Health Forum Gastein, General Assembly of the European Council of Liberal Professions, International Sociological Association (Sociology of Professional Groups) Interim Conference, a'r IQ Congress 2014.

## Ein gwerthoedd

2.28 Mae ein gwerthoedd yn creu fframwaith i'n penderfyniadau. Maent yn ganolog i bwy yr ydym a sut yr hoffem i'n partneriaid ein gweld. Rydym yn ymroddedig i fod:

- Â ffocws ar les y cyhoedd
- Annibynnol
- Teg
- Tryloyw
- Chymesur.

2.29 Bydd ein gwerthoedd yn weladwy yn: y modd yr ydym yn gweithio; ein hymagwedd tuag at ein goruchwyliaeth o gofrestru a rheoleiddio'r sawl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol; sut ydym yn datblygu cyngor polisi a sut ydym yn ymgysylltu â'n partneriaid i gyd. Byddwn yn gyson yn ein cymhwysiad o'n gwerthoedd i'r hyn a wnawn.

2.30 Rydym yn annibynnol, ond yn dal ein hunain yn atebol i'r cyhoedd ac i seneddau a chynulliadau'r Deyrnas Unedig ar gyfer yr hyn a wnawn a sut ydym yn ei wneud.

2.31 Rydym yn gwrando ar farn y bobl sy'n derbyn gofal. Rydym yn ceisio sicrhau y gweithredir ar eu barn yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

2.32 Rydym yn hyrwyddo a chefnogi rheoleiddio cyffyrddiad cywir.[4] Mae hyn yn rheoleiddio sy'n seiliedig ar asesiad o risg, sydd wedi ei dargedu ac yn gymesur, yn darparu fframwaith ble gall proffesiynoldeb ffynnu a ble gellir cyflawni

[4] Awdurdod Safonau Proffesiynol. 2010. Rheoleiddiad Cyffyrddiad Cywir. Ar gael ar http://www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/right-touch-regulation

rhagoriaeth sefydliadol.[5] Byddwn yn gweithredu egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir wrth gyflawni'n gwaith ein hun.

### Ein hamcan

2.33 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn gweithio i godi safonau ac annog gwelliannau yng nghofrestriad a rheoleiddiad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Gwnawn hyn er mwyn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o'r cyhoedd.

### Amcanion strategol

2.34 Cyflwynir ein hamcanion strategol ar gyfer 2013/15 isod. Trafodir ein dulliau o'u cyflawni yn ystod 2013/14 yn adroddiad y Prif Weithredwr.

2.35 Ein hamcanion strategol yw y byddwn yn:

**1 – Cyfrannu i welliant o safonau galwedigaethol ac ymarfer mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy sicrhau fod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn sefydliad annibynnol, awdurdodol, effeithiol, gwerth am arian yn gweithredu er lles y cyhoedd.**

***Rydym yn cyflawni hyn trwy:***

- Gymhwysiad cyson o'n gwerthoedd
- Dialog gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaeth, y cyhoedd a'u sefydliadau cynrychiadol
- Bod yn ymroddedig i gynhwysiant, cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol
- Hyrwyddo rôl gywir rheoleiddio o ran diogelu'r cyhoedd
- Bod yn glir a phositif yn ein perthynas gyda chyrff a sefydliadu a rheoleiddiol sydd â chofrestrau galwedigaethol gwirfoddol
- Ymgysylltiad gweithredol gyda rheolyddion ac eraill, o fewn a thu allan i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol
- Arferion busnes effeithiol a gweithio cost effeithiol
- Cyhoeddi ein cynllun busnes ac adroddiad blynyddol a chyfrifol yn flynyddol.

**2 – Adrodd yn glir ac agored ar effeithiolrwydd cyrff rheoleiddio wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er lles cleifion a'r cyhoedd.**

***Rydym yn cyflawni hyn trwy:***

- Weithio gyda'r rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol a oruchwylir gennym (gweler Pennod 4) i ddarparu asesiad seiliedig ar dystiolaeth, dibynadwy a rhagolwg cadarn o'u perfformiad

[5] Diffinnir rhagoriaeth sefydliadol fel perfformiad cyson o arfer da wedi ei gyfuno â gwelliant parhaus.

- Adrodd yn flynyddol ar ymatebion y rheolyddion i'n hadolygiadau perfformiad ac archwiliadau ac ar eu gweithrediad o'n hargymhellion
- Defnyddio ein grymoedd statudol i archwilio ac adolygu achosion addasrwydd i ymarfer yn briodol, yn cynnwys yr hawl statudol i apêl
- Ymateb yn briodol i bryderon a chwynion a godir gyda ni ac ymchwilio ac adrodd yn agored ble fo angen
- Bod yn gymesur a ffocysedig ar ddeilliannau
- Galluogi rhannu arferion da a dysgu
- Adrodd cyhoeddus tryloyw, penderfynol a theg.

### 3 – Hybu hyder y cyhoedd mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio trwy greu cynllun achredu dibynadwy ac effeithiol ar gyfer cofrestrau galwedigaethol gwirfoddol, gan hyrwyddo ansawdd mewn addysg a hyfforddiant, cofrestriad a safonau ymddygiad.

***Rydym yn cyflawni hyn trwy:***

- Gael safonau diffiniedig pendant o fynediad i'n cynllun achredu cofrestrau gwirfoddol
- Sicrhau fod deiliaid cofrestrau gwirfoddol y byddwn yn eu hachredu yn parhau i fodloni ein safonau
- Cefnogi ac annog deiliaid cofrestrau gwirfoddol i fodloni safonau'r cynllun achredu a'u galluogi i ymuno
- Hyrwyddo cyfathrebu a chydweithredu rhwng deiliaid cofrestrau gwirfoddol i rannu arfer gorau
- Egluro a chyfathrebu i'r cyhoedd y gwahaniaeth rhwng cofrestriad statudol a chofrestriad gwirfoddol
- Galluogi'r cyhoedd a chleifion i wneud dewisiadau gwybodus ynglŷn â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol
- Gweithredu yn erbyn deiliaid cofrestrau gwirfoddol sy'n methu bodloni ein safonau
- Adolygu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun
- Sicrhau fod y cynllun yn rhoi gwerth am arian.

**4 – Adeiladu tystiolaeth a hyrwyddo trafodaeth er mwyn nodi arfer gorau o ran rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal a chofrestriad, ac i ddylanwadu ar faes ehangach polisi rheoleiddio.**

***Rydym yn cyflawni hyn trwy:***

- Ddarllen dadansoddiad o bolisi mewn rheoleiddiad, iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig a thramor
- Ymateb i gomisiynau am gyngor gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a'r gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig
- Nodi problemau o'n hadolygiadau perfformiad ac argymell atebion
- Cyhoeddi ymchwil, cyngor a chanllaw
- Hyrwyddo trafodaeth, dadl a dysgu trwy seminarau a chynadleddau
- Deall cyd-destun ehangach rheoleiddio, yn cynnwys yn rhyngwladol
- Ymateb yn ystwyth i newidiadau yn y cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol
- Hwyluso cydweithredu a chydweithio rhwng cyrff rheoleiddio ac eraill.

2.36 Byddwn yn ystyried sut ydym wedi cyflawni'r amcanion strategol hyn yn yr adroddiad hwn.

## Y flwyddyn a adolygir

### *Risg ac ansicrwydd*

2.37 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i wynebu materion sy'n codi o'n statws dros dro ac ansicrwydd parthed gweithrediad ein trefniadau cyllido newydd.

2.38 Cyflwynodd Deddf 2012 fodd o gyllido gwaith rheoleiddio'r Awdurdod i'w newid o Gymorth Grant i ffi/ardoll i'w thalu gan y cyrff rheoleiddio. Mae angen cychwyn deddfwriaeth alluogi er mwyn casglu'r ffioedd. Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd ac eraill i weithredu'r ddeddfwriaeth a phrosesau cysylltiedig.

2.39 Yn ystod 2013/14, cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda'r Adran Iechyd a Thrysorlys EM ac rydym yn obeithiol y bydd y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar ddod yn 2014/15 gan alluogi'r trefniadau newydd i gychwyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

2.40 Ers 2013, mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithredu gyda chyfrifon segmentiedig wrth baratoi ar gyfer y newid arwyddocaol hwn. Rydym yn dal i weithredu fel busnes gweithredol ac mae gennym lythyr gan yr Adran Iechyd sy'n gwarantu ein cyllid nes y byddwn yn hunan gyllido.

2.41 Er bod yr amser arweiniol wedi caniatáu i ni ganolbwyntio ar newidiadau eraill, yn cynnwys cyflwyno cynllun achredu cofrestrau gwirfoddol (AVR), mae wedi golygu y gall fod angen ailadrodd gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol wrth ragweld y newid. Mae hefyd wedi golygu, o safbwynt strategol, nad ydym wedi gwybod pa gyllid fydd gennym yn y dyfodol, gan gyfyngu ar ein cynllunio hirdymor.

2.42 Ystyriwyd ein statws yn ystod y trafodaethau cychwynnol ynglŷn â'r ardoll. Er ein bod wedi'n cynnwys yn yr adolygiad Corff Hyd Braich, nid oeddem mewn gwirionedd yn gorff cyhoeddus anadrannol ac rydym wedi cael ein hailddosbarthu'n ffurfiol fel 'corff cyhoeddus annosbarthedig' wrth aros am newidiadau i'n trefniadau cyllido. Mae manteision ac anfanteision i hyn. Er bod rhaid i ni wneud llai o gyfraniadau i adroddiadau canolog yr Adran Iechyd, gan nad ydym wedi'n hystyried i fod yn aelod llawn o'r grŵp, weithiau byddwn yn canfod nad yw gwybodaeth yr ydym ei hangen ar gael ar unwaith gan nad yw o reidrwydd yn amlwg ei fod yn berthnasol i ni. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cyfathrebu'n agos gyda'n huned nawdd er mwyn lleihau'r problemau hyn.

### *Swm y gwaith*

2.43 Yn ystod 2012/13, fe sylwom fod y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer yr oeddem yn eu derbyn wedi cynyddu'n arwyddocaol. Mae'r duedd hon wedi parhau gyda chynnydd o 30 y cant mewn achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ceir manylion llawn ar yr agwedd hon o'n gwaith yn yr adroddiad Craffu ac Ansawdd.

2.44 Yn ogystal â chynnydd yn swm y gwaith, mae'r nifer o achosion yr ydym wedi eu hapelio neu a fu'n destun camau cyfreithiol hefyd wedi cynyddu'n arwyddocaol yn ystod y 12mis diwethaf.

2.45 Ynghyd â'r cynnydd ym maint a chymhlethdod achosion, rydym wedi gorfod gweithredu dulliau o weithio o ganlyniad i newidiadau yn y modd yr ydym yn sicrhau cyngor cyfreithiol allanol. Rydym wedi recriwtio staff cyfreithiol cymwysedig i gyflawni llawer o'r gwaith a fu'n cael ei gyflawni gan secondeion o gwmnïau cyfreithiol, lleihau ein costau a chontractau allan tra'n rhoi mwy o gysondeb i ni.

### *Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Reoleiddio Gweithwyr Iechyd*

2.46 Cyhoeddwyd adolygiad Comisiwn y Gyfraith i fframwaith cyfreithiol rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal ar 2 Ebrill 2014. Fe groesawom y posibiliad o fframwaith deddfwriaethol sengl, a manteision posibl hyn o ran cysondeb ac effeithlonrwydd wrth ddarparu rheoleiddio proffesiynol ac o ran trosolwg yr Awdurdod o'r sector.

2.47 Yn seiliedig ar ein dadansoddiad cychwynnol, rydym yn pryderu petai yn cael ei basio i gyfraith, na fyddai'r bil arfaethedig, fel y mae ar hyn o bryd, yn darparu sail statudol da i symleiddio neu wella diogelu'r cyhoedd.

2.48 Rydym yn pryderu y bydd rhai o'r newidiadau a gynigir yn ei gwneud yn anoddach i ddiogelu cleifion ac yn cyfyngu ar rymoedd yr Awdurdod. Rydym wedi datgan ein barn am ddarpariaethau'r bil arfaethedig i'r Adran Iechyd.[6]

### *Dangosyddion perfformiad allweddol*

2.49 Yn ein cynllun busnes blynyddol, fe gyflwynom ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer ein gwaith. Trafodir ein perfformiad yn eu herbyn yn rheolaidd gyda'n huned nawdd yn yr Adran Iechyd.

[6] Gellir dod o hyd i'n hymateb llawn yn http://www.professionalstandards.org.uk/library/document-detail?id=6eff589e-2ce2-6f4b-9ceb-ff0000b2236b

2.50 Gellir gweld ein perfformiad yn erbyn y KPIs yn ystod 2013/14 yn y tabl isod.

| Ffrwd gwaith | KPI | Perfformiad |
|---|---|---|
| **Penderfyniadau adran 29** | Pob (100%) penderfyniad perthnasol i'w ystyried o fewn dyddiadau cau statudol | >99.9% |
| **Cwynion am gyrff Rheoleiddio** | Cydnabod pob (100%) cwyn o fewn pum niwrnod gwaith | 93% |
| **Ymholiadau DPA a FOI** | Delio â phob (100%) cais FOIA a DPA o fewn dyddiadau cau statudol | 100% |
| **Cyllid** | I dalu anfonebau diamheuol: 60% ymhen pum niwrnod; 100% ymhen 10 niwrnod | 53%<br><br>100% |
| **Adnoddau Dynol** | Salwch yn ddim mwy na 2.5%<br><br>Trosiant staff yn llai na 10% | 1.2%<br><br>1.8% |
| **Cwynion ynglŷn â'r Awdurdod** | Cydnabod 100% o gwynion ymhen pum niwrnod<br>Cwblhau cwynion o fewn 28 niwrnod | 100%<br><br>100% |
| **Cofrestrau gwirfoddol achrededig (AVRs)** | Pwynt gwirio cyntaf o fewn 15 niwrnod gwaith o gael cadarnhad o'r taliad i'r Awdurdod<br>Bydd ceisiadau yn dod gerbron y panel achredu o fewn 21niwrnod i dderbyn yr holl wybodaeth / dogfennaeth ofynnol | 66%<br><br>100% |

## Cyflogeion

2.51 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i alluogi cyflogeion i gyflawni eu llawn botensial mewn amgylchedd a nodweddir gan urddas a pharch i'w gilydd. Mae ein polisïau cyflogaeth yn ceisio creu gweithle ble gall pob cyflogai wneud ei orau, a chyfrannu i lwyddiant yr Awdurdod a'i lwyddiant ei hun.

2.52 Rydym wedi cadw gwasanaethau Right Corecare ac mae gan ein staff fynediad at gymorth a chwnsela os oes angen. Ceir manylion cyfraddau salwch staff yn yr Adroddiad Taliadau.

2.53 Mae'r Awdurdod yn cydnabod manteision busnes cael gweithlu amrywiol ac mae'n ymroddedig i gynnal diwylliant ble mae amrywiaeth a chydraddoldeb yn cael ei hyrwyddo'n weithredol a ble na oddefir gwahaniaethu. Rydym yn gweithredu polisi dethol teg ac agored ar gyfer ceisiadau am gyflogaeth a dyrchafiadau mewnol.

2.54 Yn 2013/14, roedd 75 y cant o'n tîm uwch reolwyr yn fenywaidd; ar y cyfan roedd 65 o'r gweithlu yn fenywaidd. Ceir rhagor o wybodaeth am y tîm o uwch reolwyr yn adran Taliadau'r adroddiad hwn ac yn y nodiadau o'r cyfrifon.

2.55 Mae’r Awdurdod yn ymroddedig i hysbysu ei staff yn barhaus am ei berfformiad, datblygiad a chynnydd, ac yn annog ymglymiad staff. Yn ystod y flwyddyn a adolygir, sefydlwyd fforwm rheolwyr timau, gyda chyswllt uniongyrchol i’r grŵp Cyfarwyddwyr.

2.56 Ni dderbyniwyd unrhyw ddatgeliadau parthed digwyddiadau o chwythu’r chwiban neu fwlio.

### *Hyfforddiant a sgiliau*

2.57 Rydym wedi asesu cymwyseddau a gofynion hyfforddiant allweddol yr holl staff ac yn gweithio i sicrhau fod staff sy’n cael eu recriwtio naill ai wedi cael neu’n caffael yr hyfforddiant gofynnol. Bwriadwn ddefnyddio’r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau hyfforddi corfforaethol.

### Cynaliadwyedd

2.58 Oherwydd ein maint, nid yw’n ofynnol i’r Awdurdod ddarparu adroddiad cynaliadwyedd. Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd.

2.59 Cafodd ein swyddfa ei hailddodrefnu, cyn i ni ddod yn denantiaid, yn unol â’r safon asesiad amgylcheddol BREEAM, sy’n edrych ar wresogi, goleuo, ailgylchu a deunyddiau eraill; mae ganddi raddiad ‘rhagorol’. Mae’r Awdurdod yn meddiannu 2.58 y cant o’r adeilad, gyda rhan ohono wedi ei feddiannu gan denantiaid yr Awdurdod.

2.60 Cyfrifir ein defnydd o nwy a dŵr fel 2.58 y cant o’r cyfanswm. Mae ein trydan wedi ei fonitro ar wahân ac mae’r defnydd ar gyfer y gofod a rhentir gan y landlord yn hysbys. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys defnydd gan denantiaid yr Awdurdod. Cyflwynir ein treuliant ar gyfer 2013/14 a’r flwyddyn flaenorol isod.

| | 2013/14 | 2012/13 |
|---|---:|---:|
| **Nwy** | 4,982kWh | 6,297kWh |
| **Trydan** | 72,406kWh | 64,461kWh |
| **Dŵr** | 162.62 $m^3$ | 130 $m^3$ |
| **Gwaredu gwastraff** | 3.17tunnell | 3.23 tunnell |

2.61 Cesglir dŵr glaw a’i ddefnyddio i gyflenwi’r cyfleusterau glanweithiol, gan leihau ein defnydd o ddŵr glân.

2.62 Mae gan ein swyddfeydd gyfleusterau i ddidoli gwastraff i’w ailgylchu; i annog staff i wneud hyn ni chesglir unrhyw wastraff o finiau wrth ddesgiau. Mae gwastraff yn cael ei wahanu i wydr, ailgylchadwy, nid i’w ailgylchu a gwastraff bwyd. Mae contractwr yn didoli’r deunydd ailgylchu cymysg. Nid oes unrhyw wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi. Mae gwastraff na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi. Defnyddir gwastraff bwyd i gynhyrchu compost ar gyfer yr ardaloedd o dirwedd o amgylch yr adeilad.

2.63 Mae gosod cywasgyddion gwastraff wedi lleihau amlder casgliadau o ddyddiol i bob pythefnos, gan leihau allyriadau cerbydau.

2.64 Rydym yn ceisio lleihau effaith ein gweithgareddau ar yr amgylchedd. Pan fyddwn yn prynu offer, rhoddir ystyriaeth i ddefnydd o ynni ac ati. Defnyddiwn ddeunydd wedi ei ailgylchu ble bynnag fo'n bosibl a'i fod yn cynnig gwerth am arian.


2.65 Rydym yn parhau i geisio lleihau'r defnydd o bapur trwy wneud y defnydd gorau posibl o'n safle mewnrwyd a gwefan i ddosbarthu gwybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio fersiynau electronig o bapurau cyfarfod ble fo'n dechnegol ymarferol. Ble defnyddir papur, rydym yn gobeithio lleihau defnydd ohono trwy reolaeth weithredol o argraffwyr yn gorfodi argraffu dwyochrog. Rydym yn defnyddio 'papur wedi ei ailgylchu llwydwyn' ar gyfer ein hanghenion o ddydd i ddydd. Defnyddiom 142 cas o bapur yn 2013/14 (329 cas yn 2012/13).

2.66 Os oes angen teithio, rydym yn defnyddio cludiant cyhoeddus cymaint â phosibl ac wedi cynyddu ein defnydd o gynadledda ffôn a fideo i osgoi'r angen i deithio. Ble fo'n bosibl, cyflawnir teithiau o fewn y Deyrnas Unedig ac Ewrop ar y trên.

2.67 Rydym wedi parhau i gasglu gwybodaeth amgylcheddol parthed teithiau a wneir gan y Bwrdd ac aelodau staff.

| **Dull teithio** | **2013/14** | | **2012/13** | |
|---|---|---|---|---|
| | **$CO^2$/kg Cyfans wm** | **$CO^2$/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn*** | **$CO^2$/kg Cyfans wm** | **$CO^2$/kg Cyfartaledd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn*** |
| **Awyr** | ***11,078*** | ***320*** | 5,238 | 206 |
| **Trên** | ***760*** | ***22*** | 460 | 18 |

Cymeradwywyd gan y Bwrdd.



Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu

09 Mehefin 2014

# 3. Adroddiad y Prif Weithredwr

**Cyflwyniad**

3.1 Rwy'n gwneud yr adroddiad hwn ar ran tîm Uwch Reolwyr yr Awdurdod. Mae'r tîm yn fy nghynnwys innau a'r tri chyfarwyddwr. Gellir dod o hyd i fanylion llawn yn yr adran Taliadau. Mae modd dod o hyd i wybodaeth am aelodau anweithredol ein bwrdd yn yr adran Llywodraethu.

3.2 Diben yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Rydym yn ymroddedig i gyflawni'r nod honno o fewn ein grymoedd a dyletswyddau statudol.

3.3 Y prif ddull o gyflawni'r nod honno yw trwy arfer ein grymoedd statudol o oruchwylio'r rheolyddion, craffu ar eu hachosion addasrwydd i ymarfer, ac adrodd ar eu perfformiad i Seneddau a Chynulliadau'r Deyrnas Unedig a thrwy achredu cofrestrau galwedigaethol gwirfoddol proffesiynau nad ydynt wedi eu rheoleiddio.

3.4 Mae ein trosolwg o benodiad aelodau i Gynghorau'r rheolyddion nawr wedi ei sefydlu ac rydym wedi darparu cyngor i'r Cyfrin Gyngor ar 10 achlysur yn ystod y flwyddyn.

3.5 Rydym hefyd yn hyrwyddo hyder, diogelu a dewis defnyddwyr trwy Gofrestrau Gwirfoddol Achrededig. Mae'r cynllun hwn yn achredu'r sefydliadau sy'n cadw cofrestrau o bobl ifanc yn gweithio mewn galwedigaethau iechyd a gofal na reoleiddir, megis cynghorwyr a seicotherapyddion, nodwyddwyr, adsefydlwyr chwaraeon ac ymarferwyr iechyd cyhoeddus. Wedi ei lansio yn Chwefror 2013, mae'r cynllun eisoes yn cynnwys 11 o gofrestrau, yn cwmpasu 11 o alwedigaethau.

3.6 Rydym hefyd yn hyrwyddo diddordeb y cyhoedd mewn rheoleiddio trwy'n gwaith ar safonau a pholisi. Fe ddarparom gyngor i'r Adran Iechyd yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag Adroddiad Ymchwiliad Mid Staffs. Roedd hyn yn cynnwys cyngor ar ddyletswydd didwylledd, prawf personau addas a phriodol ar gyfer rheolwyr, a rheoli a diswyddo gweithwyr achos nad ydynt yn perfformio'n dda. Fe gyhoeddom bapurau ar ddewisiadau amgen i wrandawiadau addasrwydd i ymarfer hefyd a llithro o gofrestrau, ac fe gyflawnom adolygiad cyflym o ymagweddau i gofrestrau rhyngwladol ar gyfer yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Iechyd. Mae'r holl gyngor a ddarparwyd ar ein gwefan. Yn ogystal, fe ymatebom i ddogfennau ymgynghori a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a sefydliadau eraill.[7]

3.7 Mae adeiladu ein gwybodaeth o reoleiddio trwy ymchwil, cymhariaeth ryngwladol, seminarau a chynadleddau yn parhau i fod yn rhan bwysig i'n hymroddiad i ansawdd.

3.8 Mae ein Symposiwm blynyddol wedi dod yn gyfle sefydledig a mawr ei fri ar gyfer rheolyddion iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig ac ymhellach i gwrdd a chyfnewid syniadau ac arfer da. Rydym yn credu ei bod yn bwysig creu gofod ble

[7] Gellir gweld manylion yr ymatebion a wnaed i ymgynghoriadau yn http://www.professionalstandards.org.uk/policy-and-research/policy-advice/consultation-responses

bydd y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni rheoleiddio dyddiol a hefyd yn cael amser i fyfyrio a meddwl.

3.9 Datblygiad pwysig i ni eleni fu'n perthynas gyda Phwyllgor Iechyd Tŷ'r Cyffredin. Mae'r pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn tystiolaeth gyda'r Awdurdod yn flynyddol: er mwyn ein dal yn atebol am ein gwaith ac i geisio ein safbwynt ar y rheolyddion a chofrestrau iechyd a gofal a oruchwylir gennym. Bydd hyn, yn ei dro, yn hysbysu rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Cynhaliwyd ein sesiwn tystiolaeth cyntaf gerbron y Pwyllgor yng Ngorffennaf 2013.

3.10 Fe gwblhaom adolygiad a gomisiynwyd ar gyfer Coleg Brenhinol Llawfeddygon Deintyddol Ontario ac un arall ar gyfer Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon. Fe barhaom hefyd i ddarparu cyngor a chefnogaeth i gydweithwyr yn Hong Kong wrth iddynt adolygu rheoleiddio gweithwyr iechyd yno.

3.11 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal persbectif ledled y Deyrnas Unedig. Yn ystod y flwyddyn, fe adolygydd y Bwrdd ein hanghenion cysylltiadau a chyfathrebu allanol; ein nod yw bod yn fwy ymwybodol o ddatblygiadau mewn systemau iechyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â Lloegr, ac i gynnal cysylltiadau da gyda chydweithwyr ledled y Deyrnas Unedig.

3.12 Adroddir yn fanylach ar yr holl weithgareddau hyn isod.

## Trosolwg o'r rheolyddion

### *Craffu ac ansawdd*

3.13 Prif amcan ein craffu ar achosion addasrwydd i ymarfer terfynol yw gwella safon y penderfyniadau a wneir gan baneli a phwyllgorau'r rheolyddion. Fel arfer gellir cyflawni hyn trwy roi adborth o bwyntiau dysgu i'r rheolyddion, yn hytrach na thrwy gyfeirio achosion at y llys. Fel arfer byddwn yn gwneud hyn trwy lythyr, neu weithiau mewn cyfarfodydd adborth. Gallai'r adborth a ddarparwn i'r rheolyddion eu helpu i ganolbwyntio'r hyfforddiant a ddarperir i aelodau eu panel addasrwydd i ymarfer, ac/neu staff. Yn ystod 2013/14, rydym wedi parhau i gyfrannu i hyfforddiant o'r fath os gofynnwyd i ni wneud hynny gan y rheolyddion.

3.14 Mae'r gwaith hwn yn cefnogi ein hail a phedwerydd amcan strategol:

> **2 – Adrodd yn glir ac agored ar effeithiolrwydd cyrff rheoleiddio wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er lles cleifion a'r cyhoedd.**
>
> **4 – Adeiladu tystiolaeth a hyrwyddo trafodaeth er mwyn nodi arfer gorau o ran rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal a chofrestriad, ac i ddylanwadu ar faes ehangach polisi rheoleiddio.**

3.15 Eleni rydym wedi gweld cynnydd eto yn y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a hysbyswyd i ni gan y rheolyddion, o 2,738 yn 2012/13 i 3,566 yn 2013/14. Mae hyn yn parhau gyda'r duedd o gynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn y nifer o achosion, a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

3.16 O'r 3,566 o achosion a dderbyniom yn 2013/14, cafodd 2,220 eu cau heb fod angen rhagor o wybodaeth. Fe ofynnom am ac ystyried gwybodaeth atodol mewn 429 o achosion. Yn 632 o'r holl achosion a dderbyniwyd, fe nodom bwyntiau dysgu i fwydo yn ôl i'r rheolyddion. O gymharu, yn 2012/13, fe nodom bwyntiau dysgu mewn 328 o achosion, sy'n cynrychioli cynnydd yn y nifer o

bwyntiau dysgu yr ydym wedi eu bwydo yn ôl, hyd yn oed wrth ystyried y cynnydd cyffredinol mewn nifer achosion.

3.17 Mae gennym ystod o rymoedd i graffu'r rheolyddion i sicrhau fod diogelwch cleifion ac amddiffyn y cyhoedd yn ganolog i'w gwaith. Dan Adran 29 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, gallwn gyfeirio penderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer a wneir gan y naw corff rheoleiddio at y llys. Rydym yn gwneud hyn os credwn i benderfyniad fod yn rhy drugarog (o fewn ystyr y mynegiant hwnnw, fel y sefydlwyd mewn cyfraith achosion) a bod angen ei gyfeirio er lles diogelu'r cyhoedd. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r grymoedd pwysig hyn ble fo angen er mwyn diogelu'r cyhoedd. Ble mae'r nifer o achosion addasrwydd i ymarfer yn cael eu rheoli gan y rheolyddion wedi cynyddu'n sylweddol, dim ond nifer fechan iawn o achosion sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriad gan y llys o hyd (gweler Tabl 2). Mae'n werth nodi ein bod wedi cyfeirio un o bob 300 o achosion i'r llys yn ystod 2013/14, o gymharu ag un ym mhob 600 yn ystod 2012/13: h.y. mae ein cyfradd cyfeirio wedi dyblu. Credwn y gallai hyn adlewyrchu tuedd ddirywiol yng nghysondeb gwneud penderfyniadau da ar draws y rheolyddion, sy'n duedd y byddwn yn parhau i'w monitro.

3.18 Yn ystod 2013/14, fe ystyriom 29 o achosion mewn cyfarfodydd achos, o gymharu â 10 o achosion yn ystod 2012/13, gan gyfeirio 12 achos i'r llys (yn 2012/13 fe gyfeiriom bedwar achos i'r llys). Mewn 15 o'r achosion, ni wnaethom gyfeiriad i'r llys, yn hytrach buom yn bwydo pwyntiau dysgu yn ôl i'r rheolyddion; ac yn y ddau achos sy'n weddill, ni chymerwyd unrhyw gamau pellach.

3.19 Cyflwynir enghreifftiau o dri achos a gyfeiriwyd at y llys gennym ar dudalennau 18 i 21.

3.20 Yn ystod 2013/14, cynhaliom archwiliadau o sampl o'r achosion a gaewyd yn ystod camau cyntaf y broses addasrwydd i ymarfer gan bump o'r naw rheolydd yr ydym yn eu goruchwylio. Yn ystod 2013/14, fe archwiliom driniaeth o achosion a gaewyd yn ystod camau cychwynnol y broses addasrwydd i ymarfer gan y rheolyddion canlynol: GMC, HCPC, GDC, PSNI a'r NMC. Mae adroddiadau casgliadau'n harchwiliadau ar gael ar ein gwefan

3.21 Defnyddiwyd y dystiolaeth a gaglwyd gennym yn yr archwiliadau yn 2013/14 i hysbysu ein hasesiad o risgiau i ddibenion penderfynu pa reolyddion i'w harchwilio yn 2014/15.

### *Adolygiad perfformiad*

3.22 Cyflawnom ein hadolygiad perfformiad blynyddol o'r naw rheoleiddiwr ar gyfer 2013/14 yn defnyddio'r un safonau a phrosesau a'r llynedd. Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r ymagwedd ddiwygiedig i gasglu tystiolaeth a gychwynnom yn 2011/12 yn ogystal â pharau gyda'r strwythur adrodd diwygiedig, mwy cryno a gychwynnwyd yn 2011/12.

3.23 Ar gyfer yr adolygiad perfformiad o'r rheolyddion gweithwyr gofal iechyd yn 2013/14, gweler cyfrol II yr adroddiad blynyddol hwn.

*Addasrwydd i ymarfer*

3.24 Cafwyd cynnydd o 30 y cant yn y nifer o achosion addasrwydd i ymarfer a hysbyswyd i ni gan y naw rheolydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. I raddau helaeth, mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y nifer o achosion sy'n dod gerbron yr NMC pob dydd (yn ystod 2013/14, fe gynyddodd y nifer o wrandawiadau'r dydd i 22).

3.25 Yn gyffredinol, rydym wedi adolygu pob achos o fewn ein dyddiad cau statudol, er ein bod yn nodi i hyn fod yn heriol mewn rhai achosion ble nad yw'r rheolyddion wedi gallu'n darparu â thrawsgrifiadau'r gwrandawiad a thystiolaeth yn brydlon. Mewn tri achos, nid oeddem yn gallu cyflawni adolygiad cyn i'r dyddiad cau ar gyfer apêl basio – rydym wedi darparu adborth ar ein pryderon ynghylch hyn i'r rheolydd perthnasol sydd wedi'n sicrhau y bydd y broblem yn cael ei datrys yn fuan.

3.26 Rydym yn cydnabod bod y nifer o gyhuddiadau addasrwydd i ymarfer yn cynyddu'n sylweddol i rai o'r rheolyddion, ac yn croesawu unrhyw ymgais gan y rheolyddion i ddeall y rhesymau dros y cynnydd hwn, yn ogystal â rhoi mwy o adnoddau i'r swyddogaeth addasrwydd i ymarfer i ddelio ag atgyfeiriadau yn brydlon.

3.27 Mae nifer ein hapeliadau ni hefyd wedi cynyddu; fodd bynnag, mae'r rhain yn dal i fod yn ganran fechan iawn o'r cyfanswm ac nid ydym o'r farn y gellir gwneud unrhyw gasgliadau cyffredinol o niferoedd mor fychan o ddata un flwyddyn. Byddwn yn dal i gadw'r niferoedd hyn dan adolygiad.

3.28 Ceir rhagor o wybodaeth am berfformiad y rheolyddion a'u haddasrwydd i ymarfer yn Rhifyn II yr adroddiad hwn.

**Astudiaeth achos 1: Cyfrifoldeb nyrs hŷn ar gyfer gofal cleifion rheng flaen**

Cyfeiriodd yr Awdurdod yr achos hwn i'r Uchel Lys yn Nhachwedd 2013.

Roedd yr achos hwn yn un ble roedd Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwyster (CCC) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi canfod fod y cofrestrai wedi methu o ran ei rôl fel Cyfarwyddwr Nyrsio/Prif Nyrs mewn Ymddiriedolaeth GIG. Canfu'r CCC fod y cofrestrai wedi amlygu cleifion i risg, ac mewn un achos i "berygl". Casgliadau allweddol y CCC oedd bod y cofrestrai:

- Heb sicrhau lefelau staffio digonol ac amrywiaeth sgiliau staff ar wardiau penodol, ble roedd lefelau staffio yn gyfrifoldeb iddi, yr oedd yn ei sefyllfa hi yn gwybod, neu y dylai fod yn gwybod, nad oedd lefelau staffio yn ddigonol ac y dylai fod wedi delio â'r materion hyn yn briodol
- Heb sicrhau y cadwyd cofnodion i'r safon briodol ar wardiau penodol
- Heb sicrhau'r darparwyr maeth a hylifau i safon briodol ar yr Uned Asesiad Brys (EAU)

- Heb sicrhau fod urddas a phreifatrwydd cleifion wedi ei gynnal yn ddigonol ar yr EAU
- Wedi siarad yn amhriodol ag un aelod o staff
- O ganlyniad i fethiant i sicrhau lefelau staffio digonol neu amrywiaeth briodol o sgiliau, wedi caniatáu i sefyllfa godi ble roedd cleifion wedi eu hamlygu i risg ar un Ward, yn yr Adran Ddamweiniau, ar yr EAU a hefyd i berygl yn yr Adran Ddamweiniau.

Canfu'r CCC fod disgwyl i'r cofrestrai weithredu fel y brif nyrs yn yr Ymddiriedolaeth; sicrhau lefel uchel o ddarpariaeth nyrsio; a bod yn enghraifft i, a llais ar ran, y nyrsys eraill yn yr Ymddiriedolaeth. Canfu'r CCC hefyd fod gan y cofrestrai gyfrifoldeb i godi problemau yn cynnwys lefelau staffio annigonol, amrywiaeth sgiliau a darpariaeth gofal nyrsio ar draws yr Ymddiriedolaeth gyda'r Bwrdd. Er i'r CCC ystyried y ffaith i'r Ymddiriedolaeth fod dan bwysau ariannol arwyddocaol ar y pryd, fe ganfu fod y cofrestrai wedi anghofio beth oedd yn ofynnol yn y rôl honno. Canfu'r CCC fod y cofrestrai wedi diystyru cyfrifoldebau gweithredol uniongyrchol a chyfyngu ei hun i rôl strategol, ac felly roedd y cofrestrai, wrth fethu sicrhau darpariaeth nyrsio ddigonol yn yr Ymddiriedolaeth, wedi rhoi cleifion mewn perygl.

Canfu'r CCC nad oedd y cofrestrai wedi dangos unrhyw ddealltwriaeth o'i hymddygiad blaenorol ac felly ni allai ddyfarnu na fyddai'r cofrestrai'n ymddwyn yn yr un modd eto. Fodd bynnag, wrth osod y gosb, fe wahaniaethodd y CCC rhwng difrifoldeb methiannau gweinyddol a'r rhai o natur glinigol. Cyflwynodd y CCC orchymyn rhybudd a fyddai'n cael ei nodi ar y gofrestr, ond na fyddai'n cael effaith gyfyngol, gan ganiatáu i'r cofrestrai ddychwelyd i ymarfer llawn.

Cyfeiriodd yr Awdurdod y penderfyniad hwn i'r Uchel Lys ar y seiliau canlynol: (a) roedd casgliad y CCC yn ystod y cam cosbi yn anghyson â'i gasgliad ar y cam niwed fod y cofrestrai yn debygol o gyflwyno risg i gleifion; (b) nid oedd yn briodol i'r CCC wahaniaethu rhwng camymddygiad gweinyddol a chamymddygiad gofal; (c) fe fethodd y CCC a gweithredu neu ystyried Canllaw Sancsiynau Dangosol yr NMC; (d) nid oedd y gosb a gyflwynwyd yn talu sylw digonol i ystyriaethau lles y cyhoedd.

Roedd yr Awdurdod hefyd yn pryderu nad oedd yr NMC wedi cyflwyno'r holl dystiolaeth berthnasol gerbron y CCC. Ni phrofwyd nifer o'r cyhuddiadau yng ngwrandawiad yr NMC gan i'r CCC gasglu nad oedd yr NMC wedi casglu digon o dystiolaeth. Er i'r Awdurdod gynnwys hyn fel sail ar gyfer apêl, cafodd ei dynnu'n ôl cyn y gwrandawiad er mwyn hwyluso datrysiad rhwng y partïon.

Cymeradwyodd yr Uchel Lys orchymyn cydsyniad rhwng yr Awdurdod, yr NMC a'r cofrestrai yn Ionawr 2014 i ganiatáu'r apêl, dileu penderfyniad y CCC ac amnewid penderfyniad dilead.

Yn yr achos hwn, roedd hefyd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud cais i'r Uchel Lys am ryddhad dros dro yn gofyn i'r NMC gadw'r cofrestrai ar ei gofrestr tan

ganlyniad yr apêl. Dan Adran 29 y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (fel y'i diwygiwyd), mae gan yr Awdurdod 40 niwrnod i adolygu penderfyniad gan reolydd ac i gyflwyno apêl. Er bod gan rai o'r rheolyddion mae'r Awdurdod yn goruchwylio'r grym cyfreithiol i ddal cofrestrai ar ei gofrestr hyd nes bydd apêl y mae'r Awdurdod yn penderfynu ei gyflwyno mewn unrhyw Lys wedi ei gwblhau, nid yw hyn yn wir ar gyfer yr NMC. Mae fframwaith cyfreithiol yr NMC yn golygu unwaith y bydd gwrandawiad addasrwydd i ymarfer yr NMC ei hun wedi ei gwblhau, gall y nyrs 'lithro' o'r gofrestr os nad yw wedi cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer adnewyddu ei gofrestriad NMC. Yn yr achos hwn, nid oedd y cofrestrai wedi adnewyddu ei chofrestriad gyda'r NMC ac nid oedd yn amodol i orchymyn amodau ymarfer na gorchymyn ataliad, ac felly byddai ei chofrestriad wedi darfod cyn clywed yr apêl gan y Llys pe na fyddai'r Awdurdod wedi gofyn i'r Llys ymyrryd i atal hynny rhag digwydd. Roedd hyn yr ail achlysur yn ystod 2013/14 i'r Awdurdod orfod gofyn i'r Llys ymyrryd fel hyn. Ar y ddau achlysur, cytunodd y Llys y byddai caniatáu i'r cofrestrai lithro o'r gofrestr yn rhwystro gallu'r Awdurdod i weithredu dan ei rymoedd Adran 29, ac felly fe orchmynnodd y Llys yr NMC i gadw'r cofrestrai ar y gofrestr nes bod yr apêl wedi ei gwblhau.

### Astudiaeth achos 2: Cyfathrebu anonest gyda chleifion yn gamymddwyn difrifol

Cyfeiriodd yr Awdurdod yr achos hwn i'r Uchel Lys ym Medi 2013.

Roedd yr achos hwn yn un ble roedd Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol (PCC) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) wedi canfod fod y cofrestrai wedi darparu gofal diffygiol i glaf mewn dau ymgynghoriad tua diwedd 2011. Agwedd allweddol o gŵyn y claf oedd bod y cofrestrai wedi tynnu'r dant anghywir.

Canfu'r PCC y cafwyd amrywiol fethiannau clinigol yn ystod yr ymgynghoriadau, gan gynnwys: tynnu'r dant yn ddiangen ac amhriodol; diffyg arferion cadw cofnodion; a rhagnodi cyffuriau gwrthfiotig yn amhriodol. Canfu'r PCC hefyd fod cofrestrai wedi ysgrifennu dau lythyr mewn ymateb i'r cwyn ble roedd y cofrestrai wedi honni ar gam ac yn anonest fod y claf wedi pwyntio at ran isaf ei cheg i nodi ffynhonnell y boen; wedi gwrthod y cynnig o gyffuriau gwrthfiotig; ac wedi gofyn yn benodol i gael tynnu'r dant anghywir.

Canfu'r PCC nad oedd ymarfer clinigol y cofrestrai yn achosi unrhyw bryderon cyfredol; fodd bynnag, teimlai'r PCC, o ystyried y cyhuddiadau parthed ymddygiad anonest y cofrestrai, yn ogystal â'i werthfawrogiad cyfyngedig o ddifrifoldeb y mater, fod angen canfyddiad o amhariad ar sail lles y cyhoedd. Gosododd y PCC gerydd ar y sail ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r anonestrwydd yn cael ei ailadrodd, ac nad oedd y cofrestrai wedi ei ysgogi gan enillion ariannol, ond wedi gweithredu "trwy synnwyr anghywir o hunangadwraeth".

Cyfeiriodd yr Awdurdod y penderfyniad hwn i'r Uchel Lys ar seiliau oedd yn cynnwys: (a) roedd y gosb yn amlwg yn anghywir gan nad oedd yn adlewyrchu difrifoldeb y camymddwyn; (b) nid oedd y PCC wedi rhoi unrhyw sylw, neu unrhyw sylw digonol, i Ganllaw'r GDC ar gyfer y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol; (c) roedd rhesymeg y PCC pam fod cerydd yn gosb ddigonol yn afresymol, anghyson ac annigonol; a (d) roedd termau'r cerydd yn amhriodol gan nad oedd unrhyw gyfeiriad at yr anonestrwydd profedig.

Cymeradwyodd yr Uchel Lys orchymyn cydsynio rhwng yr Awdurdod, y GDC a'r cofrestrai ym Mawrth 2014 yn caniatáu'r apêl ac yn amnewid penderfyniad o waharddiad tri mis gyda gwrandawiad adolygiad cyn i ddyddiad dod i ben y gorchymyn gwaharddiad ddod i rym o Ebrill 2014.

### Astudiaeth achos 3: Methiant gweithiwr cymdeithasol i ymweld neu gadw cofnodion priodol

Cyfeiriodd yr Awdurdod yr achos hwn i'r Uchel Lys yn Chwefror 2014.

Roedd yr achos yn un ble roedd Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwyster (CCC) y Cyngor Gweithwyr Iechyd a Gofal (HCPC) wedi canfod fod addasrwydd i ymarfer cofrestrai (gweithiwr cymdeithasol) wedi ei amharu parthed nifer o faterion yn ymwneud â rheoli achosion a chadw cofnodion tra bod y cofrestrai yn gweithio o fewn adran Gwasanaethau Plant Cyngor Sir. Derbyniodd y Cyngor Sir gŵyn ynglŷn â'r cofrestrai a ysgogodd archwiliad cyfyngedig o'i gwaith. Pan godwyd pryderon am safon y cadw cofnodion, rhoddwyd cyfle i'r cofrestrai ddiweddaru'r cofnodion, ac yna dywedodd wrth reolwyr ei bod wedi gwneud hynny. Ar ailwirio'r ffeiliau, ychydig os o gwbl o newid a welai'r rheolwr oedd yn adolygu, ac felly fe gychwynnwyd ymchwiliad ehangach. Yn ystod yr ymchwiliad mewnol, fe honnodd y cofrestrai ei bod wedi cyflawni ymweliadau na chefnogwyd yn y cofnodion.


Roedd y cyhuddiadau a wnaed gan yr HCPC yn ymwneud â phryderon yn gysylltiedig i bum teulu, pob un ohonynt gyda phlant oedd yn destun cynlluniau amddiffyn plant neu fesurau amddiffyn plant eraill. Roedd y cyhuddiadau yn ymwneud â: chadw cofnodion; methiannau i ymweld â phlant ac i gynnal cyfarfodydd gyda theuluoedd a gweithwyr perthnasol ar 'amlder diogel'; a, parthed Teulu A, fod y cofrestrai wedi camliwio canlyniad dau ymweliad â'r cartref mewn adroddiad cynhadledd adolygiad amddiffyn plant, gan ddatgan ar un achlysur ei bod wedi gweld plentyn, pan nad oedd neb gartref mewn gwirionedd, ac ar un arall, yn datgan bod y plentyn yn "iawn" pan nad oedd y cofrestrai wedi mynychu'r cartref.

Cyfeiriodd yr Awdurdod y penderfyniad hwn i'r Uchel Lys ar y seiliau bod: (a) nid oedd yr HCPC wedi llwyddo i honni fod camau'r cofrestrai parthed teulu A yn anonest a, pe byddai'r cyhuddiad wedi ei brofi, roedd yn debygol y byddai wedi derbyn cosb fwy difrifol; (b) wrth ystyried y gosb, ni roddodd y CCC ystyriaeth briodol i ddiffyg mewnwelediad y cofrestrai a difrifoldeb ymddygiad y cofrestrai o ran darparu gwybodaeth anwir i'r panel adolygiad plant, y risgiau i'r teuluoedd perthnasol a Chanllaw Cosbau Dangosol HCPC; (c) ni esboniodd y CCC sut oedd y penderfyniad i gyflwyno gorchymyn amodau ymarfer yn briodol, gan ystyried Canllaw cosbau


Dangosol yr HCPC, lles y cyhoedd, a hefyd bod termau'r amodau eu hunain yn annigonol.  Yn benodol, nid oedd yr amodau yn gofyn am unrhyw oruchwyliaeth nac unrhyw fonitro digonol o ymarfer y cofrestrai.

Cyflwynodd yr Awdurdod yr apêl yn Chwefror 2014 ac yna atal yr achos, wedi derbyn hysbysiad bod yr HCPC yn bwriadu gofyn i CCC arall adolygu'r penderfyniad (mae gan yr HCPC rym i wneud hyn dan ei fframwaith cyfreithiol). Yn y gwrandawiad ym Mawrth 2014, fe ystyriodd y CCC gais am ddileu gwirfoddol a wnaed gan y cofrestrai. Caniatawyd y cais a chafodd y cofrestrai ei thynnu o gofrestr yr HCPC o weithwyr cymdeithasol. Ni fydd gan y cofrestrai hawl i wneud cais am adferiad i'r gofrestr am bum mlynedd, ac os bydd yn gwneud cais am adferiad bryd hynny, bydd ei chais yn cael ei drin yn yr un modd a phe byddai wedi ei dileu oddi ar y gofrestr yng ngwrandawiad y CCC.

**Tabl 1**



**Tabl 2**




** Yn 2012/13, cyfeiriwyd cyfanswm o bedwar achos i'r llys, gydag un achos yn cael ei dynnu'n ôl gan y CHRE/yr Awdurdod.*

*Craffu ar brosesau penodiadau cynghorau'r rheolyddion*

3.29 Ers 1 Gorffennaf 2012, mae'r Awdurdod wedi cynorthwyo'r Cyfrin Gyngor gyda phenodiadau i'r cynghorau rheoleiddiol (ac eithrio PSNI). Cawsom y rôl hon gyda chychwyn Adran 227 y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Ers Awst 2012, rydym wedi darparu cyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed yr holl brosesau i wneud penodiadau i gynghorau'r rheolyddion.

3.30 Dan y darpariaethau hyn, mae gan y Cyfrin Gyngor y grym i wneud penodiadau newydd, ond gall wneud trefniadau gydag eraill, yn cynnwys yr Awdurdod a'r rheolyddion, i'w gynorthwyo gyda'r swyddogaeth hon. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu fod pob rheoleiddiwr yn gyfrifol am bob agwedd o'r broses recriwtio/dethol hyd at y pwynt y mae wedi penderfynu pa ymgeiswyr y dylid eu penodi. Yna mae'r rheoleiddiwr yn argymell yr ymgeiswyr i'r Cyfrin Gyngor. Os yw'r cyfrin Gyngor yn ystyried yr argymhelliad, mae'n gwneud y penodiadau, wedi ei hysbysu gan gyngor yr Awdurdod ynglŷn â'r broses a ddefnyddiodd y rheoleiddiwr.

3.31 Rydym yn craffu proses pob un o'r penodiadau ac yn asesu a yw'n cadw at yr egwyddorion o benodi ar sail teilyngdod, tegwch, tryloywder a didwylledd, ac i ba raddau y mae'n ysbrydoli hyder. Unwaith y byddwn wedi craffu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y rheoleiddiwr ar y pwynt pan fyddant yn argymell ymgeiswyr i'r Cyfrin Gyngor, rydym yn fodlon fod proses wedi cadw at yr holl egwyddorion hyn, rydym yn cynghori'r Cyfrin Gyngor y gall gael hyder yn y broses.

3.32 Mae cwmpas ein cymorth i'r Cyfrin gyngor wedi ei gyfyngu i graffu ar y broses a ddefnyddiodd y rheoleiddiwr i ddethol ymgeiswyr i'w hargymell ar gyfer penodiad. Nid oes gennym unrhyw farn ar addasrwydd unigolion ar gyfer rolau penodol; ble bynnag fo'n bosibl, rydym yn osgoi gwybod pwy yw'r ymgeiswyr a argymhellwyd. Nid ydym ychwaith yn rhagnodi'r broses y dylai rheolyddion ddefnyddio, yn unol ag ymagwedd cyffyrddiad cywir. Cyn belled ag y gall y rheoleiddiwr arddangos fod ei broses yn cadw at y pedwar egwyddor, gall weithredu proses sy'n gweddu orau i'w anghenion ac adnoddau ei hun.

3.33 Mae natur cymorth yr Awdurdod i'r cyfrin gyngor, nad yw wedi ei ddynodi yn y Ddeddf, yn amodol i gwblhau memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng y Cyfrin Gyngor a'r Awdurdod yn Chwefror 2013. Cytunom y byddwn yn darparu cyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed pob proses cystadlaethau agored ac ailbenodiadau ac, os yw'r Cyfrin Gyngor yn gofyn am hynny, parthed unrhyw agwedd arall o swyddogaeth penodiadau'r Cyfrin Gyngor. Rydym wedi cyhoeddi dwy ddogfen gyda manylion ein dull, yn disgrifio'r broses graffu a ddefnyddiwn ac yn darparu canllaw arweiniad da ar wneud penodiadau i'r cyngor. Cyhoeddwyd fersiynau wedi eu hadolygu a diweddaru o'r rhain yn Ionawr 2014, wedi adolygiad cynhwysfawr o'n proses yn dilyn ei flwyddyn weithredol gyntaf.

3.34 Yn 2013/14, darparom gyngor i'r Cyfrin Gyngor parthed 10 o brosesau sy'n cael eu rhedeg gan chwech rheoleiddiwr. Roedd naw o'r prosesau hyn yn ymwneud â phenodiadau trwy gystadleuaeth agored, yn cwmpasu 42 o swyddi, gan gynnwys dwy rôl cadeirydd. Fe gynghorom y Cyfrin Gyngor y gallai fod yn hyderus o'r prosesau hyn. Roedd y pumed achlysur ble darparom gyngor parthed yr estyniad i gyfnod swydd Cadeirydd yr NMC. Cynghorom y Cyfrin Gyngor nad oedd y broses hon yn cadw'n llawn at ein hegwyddorion o broses penodiadau da, yn bennaf am na chafwyd proses ddethol dryloyw, gystadleuol o ran penodiad cychwynnol Cadeirydd yr NMC na'r estyniad o'r tymor. Golygai ystyriaethau eraill ar y pryd i'r Cyfrin Gyngor ymestyn tymor Cadeirydd yr NMC am naw mis. Fodd bynnag, gwnaeth hynny ar y sail na ellid gwneud estyniadau pellach, sy'n golygu y byddai angen penodi'r Cadeirydd newydd yn dilyn cystadleuaeth lawn ac agored.

3.35 Yn ystod ein gwaith craffu, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ogystal ag achosion o ymarfer da. Rydym wedi ceisio rhannu dysgu ymysg y rheolyddion, ac i'r diben hwn fe gynhaliom seminar yng Ngorffennaf 2013 a fynychwyd gan yr wyth rheolydd a Swyddfa'r Cyfrin Gyngor. Roedd y seminar hefyd yn gyfle i gael adborth gan fynychwyr i hysbysu ein hadolygiad o'n proses. Yn ystod yr adolygiad, fe ofynnom hefyd am fewnbwn gan adrannau iechyd yn y pedair gwlad ac eraill sy'n weithgar ym maes ehangach penodiadau cyhoeddus, yn cynnwys Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r dogfennau canllaw diwygiedig a gyhoeddom yn Ionawr 2014 yn adlewyrchu canlyniad yr adolygiad hwn, ac yn cynnwys nifer o'r gwersi a ddysgwyd ers 2012. Byddwn yn dal i geisio hyrwyddo ymarfer da yn y maes hwn, ac yn cyhoeddi canllaw pellach fel fo angen.

### *Safonau a pholisi*

*Cyngor ar faterion yn ymwneud â rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal*

3.36 Mae'r tîm Safonau a Pholisi yn gweithio i wella rheoleiddiad pobl yn gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Trwy wneud hynny, mae'r rheolyddion yn cael gwybod am ddatblygiadau mewn meysydd rheoleiddio eraill a sut y gellid trosglwyddo'r rhain i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r tîm yn ymateb i ymgynghoriadau a gyflawnir gan y rheolyddion ac eraill. Mae hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith y sefydliad a'i berthynas gyda'r cyhoedd a chleifion.

3.37 Mae'r gwaith hwn ategu a chefnogi ein hail a phedwerydd amcan strategol:

**2 – Adrodd yn glir ac agored ar effeithiolrwydd cyrff rheoleiddio wrth reoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol er lles cleifion a'r cyhoedd.**

**4 – Adeiladu tystiolaeth a hyrwyddo trafodaeth er mwyn nodi arfer gorau o ran rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal a chofrestriad, ac i ddylanwadu ar faes ehangach polisi rheoleiddio.**

3.38 Yn Awst 2013, fe gyhoeddom gyngor ymarfer da ar gofrestriadau sy'n llithro. Ysgogwyd y gwaith hwn gan gasgliadau yn ein Hadolygiad Perfformiad 2011/12 oedd yn dynodi amrywiaeth eang mewn ymagweddau i gofrestriadau sy'n llithro ar draws y rheolyddion. Canfu ein hadroddiad y byddai rhywfaint o fantais i gysoni'r dulliau adnewyddu ar draws y rheolyddion i ddarparu gwell eglurder i gyflogwyr. Argymhellom hefyd fod rheolyddion yn ystyried pa fesurau ymarferol y gallent weithredu i gefnogi cofrestreion i fodloni'r gofynion adnewyddu.

3.39 Rydym wedi ymateb i 15 o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn, yn cynnwys ymgynghoriad y GMC ar ofynion iaith Saesneg, ymgynghoriad yr NMC ar ail-ddilysu a nifer yn ymwneud â gofynion yswiriant indemniad.

3.40 Hybwyd ein hatebolrwydd a pherthynas gyda'r Pwyllgor Iechyd eleni yn dilyn argymhelliad yn Adroddiad Francis (2013).[8]

3.41 Ysgrifennodd y Pwyllgor yn ei adroddiad, 'After Francis'.

> *'Argymhellodd Robert Francis y dylai'r Pwyllgor, trwy ei drefniadau ar gyfer gwrandawiadau atebolrwydd rheolaidd gyda rheolyddion proffesiynol a system ac fel arall, fonitro gweithrediad ei argymhellion a datblygiad newid diwylliant yn y GIG y mae'n ystyried i fod yn allweddol. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag argymhelliad Robert Francis ar gyfer ei rôl o ran monitro gweithrediad ei argymhellion. Felly mae'r Pwyllgor yn cynnig hybu ei graffu o reoleiddio gweithwyr iechyd trwy gymryd tystiolaeth gyhoeddus pob blwyddyn gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (y PSA, sef y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd gynt) ar yr amgylchedd rheoleiddiol a pherfformiad pob rheolydd proffesiynol, yn seiliedig ar adroddiad blynyddol y PSA ei hun. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar 9 Gorffennaf 2013 gyda chynrychiolwyr o'r PSA i archwilio ei adroddiad blynyddol ac adolygiad perfformid ar gyfer 2012/13.*[9]

[8] Ar gael ar http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmhealth/657/65704.htm#a4

[9] Ar gael ar [13 http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmhealth/657/65704.htm#note13

*Mae'r Pwyllgor yn bwriadu defnyddio'r barnau a fynegwyd gan y PSA yn ei adroddiadau ac yn y sesiynau hyn wrth baratoi ar gyfer ei wrandawiadau atebolrwydd rheolaidd gyda'r GMC a'r NMC. Bydd hefyd yn archwilio'r achos dros wahodd rheolyddion proffesiynol eraill dan gylch gorchwyl y PSA i ymddangos ger ei fron o bryd i'w gilydd, o ganlyniad i'r barnau a fynegwyd am ei berfformiad gan y PSA.*

*Dangosodd Adroddiad Francis fod methiant atebolrwydd proffesiynol yn ffactor allweddol a gyfrannodd i fethiannau gofal yn Ymddiriedolaeth GIG Mid Staffordshire. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi rhoi pwyslais cyson ar bwysigrwydd diwylliant proffesiynol agored ac atebol yn ei adroddiadau ei hun yn ystod y Senedd hon. Mae'n croesawu argymhelliad Robert Francis y dylid cael mwy o oruchwyliaeth seneddol o ansawdd rheoleiddio proffesiynol, ac mae'n bwriadu datblygu ei berthynas gyda'r PSA i wneud yr oruchwyliaeth hon mor effeithiol â phosibl.'*

3.42 Mae sawl ffurf i'n cefnogaeth o waith craffu'r Pwyllgor:

- Yr adroddiad adolygiad perfformiad, ac adroddiadau archwilio fel y'i cyhoeddir
- Ein cyfarfod blynyddol gyda'r pwyllgor yn dilyn cyhoeddi ein hadolygiad perfformiad
- Tystiolaeth ysgrifenedig o flaen llaw i bob cyfarfod unigol gyda'r rheolyddion, yn cynnwys data adran 29 ble fo'n briodol.
- Briffio atodol ar bynciau a nodwyd gan y Pwyllgor – er enghraifft, gofynnwyd i ni ddarparu gwybodaeth ar drosglwyddo'r gofrestr gwaith cymdeithasol i HCPC o flaen llaw i'r cyfarfod atebolrwydd yn Ionawr.

*Ein perthynas â'r cyhoedd, rheolyddion, a rhanddeiliaid eraill*

3.43 Fe gomisiynom gyngor ar ein hymagwedd i ymgynghori a chynnwys cleifion a defnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i ystyried ein cyfrifoldebau ehangach, gan gynnwys gweithredu ein cynllun achredu ar gyfer cofrestrau gwirfoddol. Bydd hyn yn hysbysu ein cynllun ymgysylltu newydd i'w ddatblygu yn 2014/2015.

3.44 Rydym wedi parhau i gyhoeddi ein e-gylchlythyr chwarterol, a ddosbarthir i aelodau ein tair rhwydwaith: y rhwydwaith rhanddeiliaid cyhoeddus, y rhwydwaith rhanddeiliaid proffesiynol a'r rhwydwaith Cofrestrau Gwirfoddol Achrededig. Rydym hefyd wedi edrych ar waith i hybu ein cyhoeddiadau gwe ac ar-lein i sicrhau fod yr wybodaeth a ddarparwn mor hygyrch a defnyddiol i'n rhanddeiliaid a phosibl.

3.45 Rydym wedi cael dialog parhaus gyda Chomisiynwyr y Gyfraith wrth iddynt ddatblygu eu cynigion ar gyfer y Bil Gweithwyr Iechyd a Gofal. Rydym wedi cefnogi'r ymateb system dan arweiniad yr Adran Iechyd i Francis, wedi cyfrannu i'r adolygiad dyletswydd didwylledd (Williams a Dalton), wedi cyfrannu i adroddiad yr Ombwdsmon Seneddol a'r Gwasanaeth Iechyd a bydwreigiaeth, ac wedi cefnogi nifer o weithgorau, yn cynnwys Bwrdd Llywodraethu Cavendish.

*Hyrwyddo ymchwil, trafodaeth a dadl*

3.46 Rydym wedi parhau i ysgogi trafodaeth a dadlau yn y sector, i annog rhannu syniadau, hyrwyddo dysgu o arfer da a sicrhau fod lles y cyhoedd yn ganolog i ddatblygiad polisi rheoleiddio.

3.47 Rydym wedi dali adeiladu ar ein rhwydwaith o academyddion sydd â diddordeb mewn gwahanol agweddau o reoleiddio proffesiynol. Cynhaliodd yr Awdurdod ei gynhadledd academaidd gyntaf ar 28 Mawrth 2014 yn Cumberland Lodge, Windsor Great Park, mewn cydweithrediad â'r Arsyllfa Moeseg Gofal Rhyngwladol, Prifysgol Surrey. Thema'r gynhadledd undydd oedd 'Gwella Rheoleiddio Proffesiynol: Mewnwelediadau Rhyngbroffesiynol'. Cyflwynodd 25 o gyflwyniadau yn ystod y diwrnod ymchwil i wahanol agweddau o reoleiddio oedd naill ai wedi ei gwblhau neu ar waith. Mynychodd 75 o bobl, yn cynnwys academyddion o 18 gwahanol sefydliad ac amrediad eang o ddisgyblaethau academaidd. Daeth gwesteion o du allan i'r Deyrnas Unedig o'r Iseldiroedd, Canada, yr Unol Daleithiau a Thwrci.

3.48 Roedd themâu'r gynhadledd yn cynnwys ymgysylltu rhwng y rheolyddion a'r cyhoedd, sut mae rheolyddion yn dylanwadu ar gofrestreion, addasrwydd i ymarfer parhaus, deall risg, cynllunio rheoleiddiol, proffesiynoldeb, a diwylliant ac ymddygiad. Daeth y diwrnod i ben gyda thrafodaeth gan Dr Jean Moore o Brifysgol Talaith Efrog Newydd a'r Athro Ivy Lynn Bourgeault o'r Sefydliad Iechyd y Boblogaeth ym Mhrifysgol Ottawa ar y berthynas rhwng y proffesiynau, cynllunio gweithlu, a'r wladwriaeth parthed rheoleiddio.

3.49 Cynhaliom seminar ar flaenoriaethau ymchwil presennol y rheolyddion ar y cyd â'r Adran Iechyd ar 3 Rhagfyr 2013. Cafwyd cyflwyniad gan reolyddion ar yr ymchwil presennol ar y gweill, blaenoriaethau'r dyfodol, ac adnoddau. Mynychodd cynrychiolwyr o reolyddion iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys wyth o reolyddion proffesiynol, dau reolydd system, a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd. Yn ogystal, mynychodd academyddion gyda chefndir mewn ymchwil reoleiddiol a chynrychiolwyr o HealthWatch.

3.50 Cynhaliodd yr Awdurdod ei symposiwm blynyddol yn Cumberland Lodge, Windsor Great Park, ar 20-21 Chwefror 2014. Ffocws y drafodaeth oedd ymateb y llywodraeth i Adroddiad Francis ac i'r adroddiad terfynol a Bil drafft gan Gomisiwn y Gyfraith. Mynychodd 58 o bobl y digwyddiad yn cynnwys Prif Weithredwyr a Chadeiryddion y rheolyddion a oruchwylir gennym, rheolyddion gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, swyddogion o'r llywodraeth, comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus ac aelodau o'r tîm cyfraith gyhoeddus, rheolyddion system, uwch gyfreithwyr rheoleiddio, cynrychiolwyr y cyhoedd, academyddion, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban, a Chadeirydd Cyngor Cynghori Rheoleiddio Proffesiynau Iechyd Ontario.

3.51 Fe awdurdod y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth bapur ar gyfer y Sefydliad Iechyd, 'Asymmetry of Influence', a gyhoeddwyd yn Hydref 2013. Mae'r papur ystyriaeth hwn yn trafod y berthynas rhwng rheolyddion a'r rhai maent yn eu rheoleiddio – boed hynny'n bobl, llefydd neu gynnyrch – ac effaith bosibl hyn ar ddiogelwch cleifion. Mae'n cynnig y dylai rheolyddion gydweithio i greu system reoleiddio sy'n lleihau'r amlder o wahanol ffynonellau

arweiniad a chyfarwyddyd, sy'n gyson a chlir, ac a welir i fod yn rym rheoleiddio sengl gyda gwahanol elfennau. Trwy gydweithio i greu amodau sy'n ysgogi ymgysylltu gyda chyfrifoldeb a hunaniaeth broffesiynol, gall rheolyddion greu system reoleiddio gyson y gall gofal fynnu ynddi.

3.52 Mewn ymateb i ddiddordeb cynyddol gan y rheolyddion i ddewisiadau amgen i wrandawiadau yn y cam panel addasrwydd i ymarfer terfynol, fe gomisiynom ymchwil annibynnol gan Research Works, cwmni ymchwil arbenigol, ar ymatebion y cyhoedd i'r dewisiadau hyn. Canfuom fod yna gefnogaeth gref i'r gwahanol ddulliau hyn, gan yr ystyriwyd fod gwrandawiadau yn brofiad poenus iawn i achwynwyr a thystion. Fodd bynnag, roedd pryderon hefyd y gallai'r dewisiadau amgen hyn arwain ar ymchwiliadau llai trylwyr, sancsiynau rhy drugarog, diffyg tryloywder, a cholli llais yr achwynwr yn y broses.

3.53 Cafodd cynlluniau i gyflawni tri phrosiect ymchwil eleni eu gohirio wedi i'r Adran Iechyd hysbysu'r Awdurdod a chyrff eraill mai dim ond gwaith allweddol i fusnes a ellid ei gwblhau yn y flwyddyn honno. Er yr ystyriwn y prosiectau hyn i fod yn angenrheidiol, fe benderfynom y gallem eu hoedi tan y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r prosiectau hyn yn ddau brosiect ymchwil defnyddwyr yn ymwneud â gwaith cymdeithasol i gynorthwyo ein gwaith yn y maes hwn, a chydweithrediad gyda Phrifysgol Surrey i asesu ymarferoldeb data sydd gennym ar achosion addasrwydd i ymarfer i gefnogi ymchwil thematig.

### *Cryfhau cysylltiadau ledled y Deyrnas Unedig, yn Ewrop a thu hwnt*

3.54 Rydym yn parhau i fonitro datblygiadau mewn rheoleiddio yn rhyngwladol, yn cadw ein haelodaeth o sefydliadau rhyngwladol ac yn ceisio cyfleoedd i rannu arfer da a hyrwyddo syniadau a thrafodaeth. Yn hyn, rydym yn cael ein cefnogi'n gynyddol gan ein gwaith adolygu rhyngwladol cynyddol.

3.55 Cynhaliom seminar gyda'r Athro Ron Paterson, Ombwdsmon Seneddol Seland Newydd, o'r enw Diwygio Rheoleiddio Proffesiynol; safbwynt rhyngwladol. Bu Prif Weithredwr yr Awdurdod yn cyfweld yr Athro Paterson ynglŷn â'i farnau ar ddiwygio rheoleiddiol, ei ddealltwriaeth o ddatblygiadau rhyngwladol ym maes rheoleiddio, a'i fyfyrdodau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dilyn adroddiad terfynol Ymchwiliad Francis.

3.56 Rydym wedi rhoi cyflwyniadau mewn nifer o gynadleddau ymchwil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ym mis Tachwedd, buom yn siarad yn y Gynhadledd Reoleiddio Flynyddol yn yr Alban ac ym Mawrth yng nghynhadledd reoleiddio Cyngor Gofal Cymru ynglŷn â'r cwmpas i ddefnyddio data addasrwydd i ymarfer i leihau camymddwyn yn y dyfodol. Ymysg digwyddiadau eraill a fynychwyd roedd: cynhadledd moeseg gofal cymdeithasol, Prifysgol Surrey; Cynulliad Cyffredinol CEPLIS; Madrid, Y Gymdeithas Gymdeithasegol Ryngwladol (Proffesiynau), Lisbon 28-30 Tachwedd; ac IQ Kongress Berlin 4-5 Chwefror.

### *Cyngor i, ac ymchwiliadau ar gyfer, llywodraethau*

3.57 Mae ein deddfwriaeth yn galluogi gweinidogion iechyd y Deyrnas Unedig i geisio ein cyngor ar unrhyw faterion yn gysylltiedig â gweithwyr gofal iechyd neu i ymchwilio ac adrodd ar faterion yn ymwneud â'n swyddogaethau. Yn 2012, ehangwyd cylch gorchwyl y cyngor hwn i ddarparu ar gyfer newidiadau i

reoleiddio gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr, a chyflwyno cofrestrau gwirfoddol achrededig gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Ym mhob achos, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â'r cais.

3.58 Ysgogodd argymhellion ynghylch didwylledd, gonestrwydd a thryloywder yn Adroddiad Ymchwiliad Cyhoeddus Ymddiriedolaeth GIG Mid Staffordshire ddau gais unigol am gyngor. Yng Ngorffennaf 2014, fe gynghorom yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ar argymhellion Robert Francis i gyflwyno dyletswydd statudol o ddidwylledd rhwng gweithwyr rheoledig a'u cyflogwyr a'i gwneud yn drosedd i weithwyr proffesiynol rwystro didwylledd neu wneud datganiadau camarweiniol neu anwir. Ym Medi 2014, fe gynghorom ar sut byddai rheoleiddio proffesiynol yn annog gweithwyr proffesiynol i fod yn fwy agored gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau pan fydd gofal iechyd neu waith cymdeithasol yn mynd o chwith. Nododd ein cyngor[10] nifer o feysydd ble gellid gwella rheoleiddio proffesiynol i annog mwy o ddidwylledd a chynghori'r Ysgrifennydd Gwladol o ran sut y gallai gefnogi'r gwelliannau hyn. I hysbysu'r cyngor hwn, cyflawnom adolygiad llenyddiaeth cyflym[11] a archwiliodd y ffactorau sy'n annog ac atal gweithwyr rhag datgelu camgymeriadau ac adrodd ar bryderon diogelwch, ac ystyried beth allai hyn ei olygu i reoleiddio proffesiynol.

3.59 Mewn ymateb i Adolygiad Cavendish, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i ni am gyngor ar sut allai cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn fwy effeithiol o ran diswyddo staff sy'n tanberfformio. Ein hargymhelliad oedd pe byddai'r Adran Iechyd yn dymuno datblygu arweiniad a chefnogaeth bellach i gyflogwyr, dylai gyfathrebu manteision buddsoddi mewn rheoli perfformiad a chyfarwyddo cyflogwyr at arweiniad a chefnogaeth bresennol ACAS yn ogystal ag arweiniad penodol i sector perthnasol.

3.60 Derbyniom lythyr comisiynu gan yr Adran Iechyd ar 1 Awst 2013 yn gofyn i ni adolygu'r proses a ddefnyddir gan y naw rheolydd yr ydym yn eu goruchwylio ar gyfer cofrestru ymgeiswyr rhyngwladol: hynny yw, y rhai a hyfforddir ac sy'n ymgeisio o du allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Yn yr adolygiad cyflym hwn, fe sefydlom yr amrywiaeth o ymagweddau a fabwysiadwyd gan y rheolyddion, a rhoi enghreifftiau o sut maent yn sicrhau eu hunain o allu ieithyddol, hunaniaeth, cymwysterau academaidd, cofrestriad a phrofiad yr ymgeisydd. Buom hefyd yn adolygu gofynion hyfforddiant neu addasu, a nodi rhai pwyntiau o ddiddordeb ac ymarfer nodedig. Cyhoeddwyd ein hadroddiad yn Hydref 2013.

3.61 Yn Ionawr 2014, dechreuom weithio ar gomisiwn ar gydsyniad ymhlyg, oedd yn deillio o argymhelliad yn adolygiad Caldicott o Lywodraethu Gwybodaeth a gyhoeddwyd ym Mawrth 2013. Mae'r comisiwn hwn yn parhau.

10 Ar gael ar http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/psa-library/candour-advice-to-secretary-of-state---final.pdf?sfvrsn=0

11 Ar gael ar http://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/psa-library/candour-research-paper---final.pdf?sfvrsn=0

### Achrediad o gofrestrau gwirfoddol

3.62 Mae'r gwaith hwn yn cefnogi ein trydydd amcan strategol:

**3 – Hybu hyder y cyhoedd mewn galwedigaethau iechyd a gofal heb eu rheoleiddio trwy greu cynllun achredu dibynadwy ac effeithiol ar gyfer cofrestrau galwedigaethol gwirfoddol, gan hyrwyddo ansawdd mewn addysg a hyfforddiant, cofrestriad a safonau ymddygiad.**

3.63 Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 wedi rhoi'r grym i'r Awdurdod achredu cofrestrau gwirfoddol sy'n bodloni ein safonau er lled defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae'r cynllun Cofrestrau Gwirfoddol Achrededig, a lansiwyd yn 2013, yn berthnasol i'r sector iechyd a gofal yn y Deyrnas Unedig. Fe'i sefydlwyd i ddarparu sicrwydd fod cofrestrau gwirfoddol wedi eu rhedeg yn dda ac yn cyflawni 11 safon yr Awdurdod, yn cynnwys:

- Llywodraethu
- Gosod safonau ar gyfer cofrestryddion
- Addysg a hyfforddiant
- Rheoli'r gofrestr
- Cwynion a gwybodaeth.

3.64 Mae cael eich achredu yn golygu fod sefydliad wedi bodloni'r Awdurdod ei fod yn bodloni ei safonau uchel Mae'n nod ansawdd. Gall cofrestrau achrededig ddefnyddio nod achredu'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (gweler llun 1, isod) er mwyn gallu eu hadnabod yn hawdd. Bydd y nod ansawdd yn rhoi sicrwydd i unrhyw un sy'n chwilio am ymarferydd, gan roi gwybod iddynt fod unrhyw un sy'n meddu ar y nod wedi ymroi i'r safonau uchel o ymddygiad personol, cymhwyster technegol ac ymarfer busnes (ble fo'n berthnasol) y sefydliad sydd â chofrestr wirfoddol achrededig.

3.65 Ers lansio'r cynllun, rydym wedi achredu 11 o gofrestrau, yn cwmpasu 24obroffesiynau a thua 47,000 o ymarferwyr. Adnewyddir yr achrediad yn flynyddol Ymgeisiodd y ddwy gofrestr gyntaf i gael eu hachredu, Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain a Chyngor Aciwbigo Prydain, i adnewyddu a llwyddo. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd chwe sefydliad yn cael eu hasesu.

3.66 Mae'r sefydliadau canlynol wedi eu hachredu:

- Cymdeithas Cynghori a Seicotherapi Prydain
- Play Therapy UK
- Y Gymdeithas Cwnsela Genedlaethol
- Y Gymdeithas Hypnotherapi Genedlaethol
- Cyngor Aciwbigo Prydain
- Cyngor Seicotherapi'r Deyrnas Unedig
- Cynghrair Ymarferwyr y Sector Preifat
- Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol

- Cymdeithas Adferwyr a Hyfforddwyr Chwaraeon Prydain
- Ffederasiwn y Therapyddion Holistaidd
- Cofrestr Iechyd Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

3.67 I annog dysgu a datblygu, cynhaliom seminar ar gyfer Cofrestrau Gwirfoddol Achrededig yn Hydref 2014, ac fe gynhaliwyd ein cynhadledd ymarfer da flynyddol gyntaf ym Mawrth. Cynhaliom seminar yn yr Alban hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun. Yn ogystal, fe gynhaliom bedwar gweithdy ar gyfer sefydliadau sy'n bwriadu ymgeisio neu'n paratoi i wneud hynny.

3.68 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cwrdd â rhanddeiliaid uwch i'w hysbysu ynglŷn â'r cynllun a'i fanteision, gan gynnwys: NHS England, NHS Employers, Ofsted, Health Education England, QAA, Ofqual, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, HMRC, darparwyr iechyd preifat ac yswirwyr. Siaradom mewn nifer o ddigwyddiadau hefyd. Mae gwybodaeth ynglŷn â'r cynllun nawr ar gael ar nifer o byrth ar-lein a ddefnyddir gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth megis NHS Choices yn Lloegr ac NHS Inform yn yr Alban. Mae hefyd wedi ei gydnabod gan y cynllun Unrhyw Ddarparwyr Cymwys ac mae gwybodaeth ynghylch y cynllun yn cael ei chynnwys yn rheolaidd ym mwletinau'r Grŵp Comisiynu Clinigol a bwletinau a gyhoeddir gan NHS Employers.

3.69 Fe nodom fod pob un o'r sefydliadau a ymgeisiodd i gael achredu eu cofrestrau wedi bod yn barod i wneud nifer o welliannau wrth baratoi ar gyfer eu cais ac yn ystod y broses asesu er mwyn bodloni'n safonau.

3.70 Derbyniom ac ystyriom 20 o bryderon a chwynion ynglŷn â'r Cofrestrau. Mae pob un o'r materion a godwyd wedi eu datrys.

### Cyngor a ddarperir i sefydliadau eraill

3.71 Mae ein deddfwriaeth yn ein caniatáu i ddarparu cyngor neu wasanaethau archwilio i gyrff rheoleiddio ac i eraill sydd â swyddogaethau tebyg i rai corff rheoleiddio, p'un a yw eu swyddogaeth yn ymwneud ag iechyd neu ofal cymdeithasol neu beidio. Rhaid i'r derbynnydd dalu'r Awdurdod am y cyngor neu archwiliadau a ddarparwyd.

3.72 Yn Chwefror 2013, cawsom ein comisiynu i gyflawni adolygiad ar gyfer y Coleg Llawfeddygon Deintyddol Brenhinol Ontario. Ar eu cais, fel adolygom ac adrodd ar eu perfformiad parthed safonau rheoleiddio da wedi eu haddasu ar gyfer eu hawdurdodaeth nhw. Profodd hyn i fod yn brofiad manteisiol i'r Coleg a'r Awdurdod ac mae wedi arwain at barhau i gyfnewid syniadau a phobl. Mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan.

3.73 Fe'n comisiynwyd hefyd gan Fwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon i adolygu eu prosesau addasrwydd i ymarfer o ganlyniad i newidiadau i'w deddfwriaeth. Fe gyflwynom ein hadroddiad ym Mawrth 2014 a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

3.74 Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynghori Gweinyddiaeth Bwyd ac Iechyd Hong Kong trwy Ysgol Iechyd Cyhoeddus JC Prifysgol Tsieineaidd Hong Kong ar eu diwygiad o reoleiddio gweithwyr iechyd yn Hong Kong.

3.75 Rydym hefyd wedi cyfrannu i nifer o gynadleddau rhyngwladol a seminarau yn cynnwys: International Society for Quality in Healthcare, National Network of Canadian Regulatory Authorities, World Health Executive Forum, European Health Forum Gastein, General Assembly of the European Council of Liberal Professions, International Sociological Association (Sociology of Professional Groups) Interim Conference, a'r IQ Congress 2014.

### *Llywodraethu a gweithrediadau*

3.76 Mae'r gwaith hwn yn ategu ein hamcan strategol cyntaf:

> **1 – Cyfrannu i welliant o safonau galwedigaethol ac ymarfer mewn iechyd a gofal cymdeithasol trwy sicrhau fod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol yn sefydliad annibynnol, awdurdodol, effeithiol, gwerth am arian yn gweithredu er lles y cyhoedd.**

#### *Cyfrifon ac archwiliad*

3.77 Mae ein cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â Dyfarniadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Atodlen 7, Paragraff 15 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012.

3.78 Sefydlir manylion Cynllun Pensiwn y GIG a thriniaeth o atebolrwydd pensiynau i'r cyfrifon yn nodiadau'r cyfrifon dan y polisïau cyfrifo (nodyn 1).

3.79 Ein harchwilydd allanol yw'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Contractiwyd PricewaterhouseCoopers i gyflawni'r swyddogaeth archwilio mewnol trwy drefniant fframwaith Archwiliad mewnol yr Adran Iechyd.

3.80 Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) y llywodraeth 2013/14 a gyhoeddir gan Drysorlys EM.

3.81 Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohono, ac rydym wedi cymryd pob cam i wneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

#### *Crynodeb ariannol*

3.82 Roedd cyllid cymorth grant ar gyfer 2013/14 yn cynnwys £2.8m (2012/13: £3.30m) gan yr Adran Iechyd a £0.33m (2012/13: £0.38m) gan y gweinyddiaethau datganoledig. Ar 31 Mawrth 2014, roedd gennym gronfa wrth gefn wedi ei ddwyn ymlaen o £0.80 miliwn (2012/13: £0.80m) wedi costau gweithredu net o £3.20m (2012/13: £3.20m).

3.83 Dangosir dadansoddiad o bolisïau cyfrifyddu yn nodyn 1 y cyfrifon. Ni chafwyd unrhyw newidiadau sylweddol iddynt yn ystod y flwyddyn.

#### *Tryloywder*

3.84 Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd.

3.85 Cynhelir ein polisi taliad credydwr yn unol â Pholisi Taliad Gwell y llywodraeth, sydd ar hyn o bryd yn darparu tâl ar gyfer cyflenwyr o fewn pum niwrnod gwaith i dderbyn anfoneb, ac eithrio yn yr achos ble gall fod ymholiad neu anghydfod am anfoneb.

3.86 Mae'r targed hwn yn heriol, yn arbennig i sefydliad bach, a dim ond trwy gyflogi mwy o staff y gellid cyflawni hyn. Felly, ein nod yw talu 60 y cant o anfonebau diamheuol o fewn pum niwrnod a 100 y cant o fewn 10 niwrnod.

3.87 Yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14, talwyd 100 y cant o anfonebau o fewn 10 niwrnod a thalwyd 53 y cant (yn ôl nifer o anfonebau) a 46 y cant (yn ôl cyfanswm gwerth anfonebau) o fewn pum niwrnod. Ceir manylion ein cofnod taliadau ar ein gwefan.[12]

3.88 Ni thalwyd unrhyw log dan y Ddeddf Taliadau Hwyr o Ddyledion Masnachol (Llog) 1998.

3.89 Y balans oedd yn ddyledus i gredydwyr masnach ar 31 Mawrth 2014 oedd £73,000 (2012/13: £47,000). Fel cyfran o'r cyfanswm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, mae hyn yn cyfateb i 15 diwrnod (2012/13: saith niwrnod). Mae'r cynnydd yn y nifer o ddyddiau yn deillio o'r cwymp arwyddocaol yn y swm a anfonebwyd gan gyflenwyr yn y flwyddyn, yn arbennig parthed ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol a ddangosir yn nodyn 4 i'r cyfrifon.

3.90 Mae gwybodaeth arall y gellir ei gweld ar adrannau datgeliad a thryloywder llywodraeth ein gwefan yn cynnwys:

- Gwariant dros £25,000
- Costau aelodau'r Cyngor
- Costau'r tîm rheoli
- Lletygarwch
- Cyflogau staff
- Siart sefydliadol staff.



Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu

9 Mehefin 2014

12 www.professionalstandards.org.uk/about-us/disclosure-and-transparency/government-disclosure/payment-statistics

# 4. Adroddiad tâl

4.1 Mae ein polisi tâl yn ymgorffori strwythur band ble gall staff symud ymlaen ar hyd pwyntiau cynyddol o fewn band penodol ynghyd â'r broses arfarnu perfformiad. Ni thelir unrhyw daliadau bonws yn ymwneud â pherfformiad. Yr arfer gyffredin fyddai i'r Pwyllgor Tâl ystyried codiad blynyddol i adlewyrchu cynnydd costau byw yn daladwy o fis Hydref. Yn unol â'r canllaw tâl ar gyfer cyflogeion y llywodraeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn 2010, mae'r cynnydd wedi ei bennu yn ganolog.

4.2 Mae symud trwy'r bandiau cyflog fesul pwyntiau cynyddol yn amodol i fodloni safonau perfformiad penodol, fel y diffiniwyd yn y polisi. Mae pob aelod o staff yn derbyn arfarniad blynyddol ym mis Ebrill, ble fo perfformiad wedi cyrraedd y safon a gytunwyd, bydd cynnydd yn eu band yn digwydd ym mis Ebrill.

4.3 Fe'n cyfarwyddwyd gan yr Adran Iechyd yn 2010/11 gan nad oedd y cynnydd blynyddol yn gytundebol, fod canllawiau Swyddfa'r Cabinet yn ein hatal rhag eu talu. Felly 2013/14 oedd y bedwaredd flwyddyn olynol pan na dderbyniodd staff unrhyw gynnydd.

4.4 Fel arfer fe gynigir cytundebau parhaol. Os ceir achos ble'i cynigir ar sail cyfnod sefydlog, mae hyn i adlewyrchu natur a chyd-destun y gwaith dan sylw. Pennir y cyfnod hysbysiad gofynnol gan swydd y deiliad. Rydym yn edrych ar daliadau terfynu a darpariaethau iawndal ar gyfer terfynu fesul achos mewn ymgynghoriad â'n cynghorwyr.

4.5 Collwyd cyfanswm o 97 o ddyddiau (2012/13: 74 o ddyddiau) o ganlyniad i salwch absenoldeb yn y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 2.3 niwrnod (2012/13: 2.3 o ddyddiau) y pen.

### Cytundebau uwch reolwyr

| Enw | Teitl | Dyddiad cytundeb | Tymor heb ddod i ben | Cyfnod rhybudd |
|---|---|---|---|---|
| Linda Allan | Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau | 15 Mawrth 2010 | Contract parhaol | 3 mis |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi | 17 Mai 2010 | Contract parhaol | 3 mis |
| Harry Cayton | Prif Weithredwr | 1 Awst 2007 | Contract parhaol | 6 mis |
| Rosalyn Hayles | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 15 Awst 2010 | Contract parhaol | 3 mis |

### Cyflogau uwch reolwyr

| Enw | Cyflog 2013/14 (£'000) | Cyflog 2012/13 (£'000 | Gwir gynnydd/ (lleihad) mewn oed pensiwn yn 60 oed (£'000) | Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Linda Allan | 80–85 | 80–85 | 0–2.5 | 5–7.5 |
| Christine Braithwaite | 80–85 | 80–85 | 0–2.5 | 10–12.5 |
| Harry Cayton | 140–145 | 140–145 | 0–2.5 | 20–22.5 |
| Rosalyn Hayles | 75–80 | 75–80 | 0–2.5 | 2.5–5 |

Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.6 Roedd pob uwch reolwr yn y flwyddyn yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG.

4.7 Mae cofrestr buddiannau uwch reolwyr ar gael ar ein gwefan.

4.8 Dan Lawlyfr Adrodd Ariannol y llywodraeth, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n derbyn y tâl uchaf (u Prif Weithredwr) ac enillion canolig gweithlu cyffredinol yr Awdurdod.

4.9 Cyflog llinell sylfaen y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2013/14 oedd £142,000. Roedd hyn 3.47 gwaith yn fwy na chyflog canolrif y gweithlu, sef £41,000.

4.10 Cyflog y Prif Weithredwr yn y flwyddyn ariannol 2012/13 oedd £141,000. Roedd hyn 3.47 gwaith yn fwy na chyflog canolrif y gweithlu, sef £41,000.

4.11 Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai dâl[13] oedd yn fwy na'r Prif Weithredwr yn 2013/14 na 2012/13. Roedd tâl yn amrywio o £20,000 i £142,000 (2012/13: £20,000 i £141,000).

[13] Ar wahân i'r pecyn a ddatgelwyd yn nodyn 3, mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflogau yn unig ac nid oedd unrhyw dâl cysylltiedig â pherfformiad ar wahân, buddiannau mewn nwyddau na thaliadau diswyddo yn 2013/14 na 2012/13. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth trosglwyddo arian cyfatebol pensiynau.

## Pensiynau

| Enw | Teitl | Gwerth pensiwn cronnol (£'000) ar 31.3.2014 | Cyfandaliad cronedig cysylltiedig (£'000) ar 31.3 2014 | Cynnydd/(lleihad) real yn y cyfandaliad cysylltiedig (£'000) | Gwerth Trosglwyddo Cyfateb i Arian ar 1 Ebrill 2013 (i'r £1,000 agosaf) | Gwerth Trosglwyddiad yn Cyfateb i Arian ar 31 Mawrth 2014 (i'r £1,000 agosaf) | Cynnydd real yn y Gwerth Trosglwyddiad sy'n Cyfateb i Arian yn y flwyddyn a drodd (i'r £1,000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Linda Allan | Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau | 5–7.5 | Amh* | Amh | 62 | 86 | 23 |
| Christine Braithwaite | Cyfarwyddwr Polisi a Chysylltiadau Cyhoeddus | 10–12.5 | 35–37.5 | 2.5–5 | 229 | 259 | 27 |
| Harry Cayton | Prif Weithredwr | 20–22.5 | 20–22.5 | -2.5–0 | 352 | 409 | 51 |
| Rosalyn Hayles | Cyfarwyddwr Craffu ac Ansawdd | 2.5–5 | Amh* | Amh | 31 | 44 | 13 |

* Ddim yn berthnasol yng nghynllun 2008

Mae'r tabl hwn wedi ei archwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod**
Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf prisiad yr actwari manteision cynllun pensiwn cronedig aelod ar bwynt penodol mewn amser. Y manteision a brisir yw manteision cronnol aelodau ac unrhyw bensiwn cymar dilynol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau manteision pensiwn mewn cynllun arall neu drefniant pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r manteision a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ystadegau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r manteision mae'r unigolyn wedi casglu o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid yn unig eu gwasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigwr CETV, ac o 2005/06 y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi trosglwyddo i Gynllun Pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fanteision pensiwn atodol i'r aelodau yn deillio o brynu blynyddoedd atodol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun o'u poced eu hunain. Cyfrifir CETV o fewn y canllawiau a fframwaith a ragnodwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwari.

**Cynnydd/(lleihad) real yn CETV**
Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd/(lleihad) real yn CETV. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn cronnol oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr a'r cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fanteision a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin gwerthuso'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

4.12 Ni thalwyd unrhyw iawndal i gyn uwch reolwyr, na gwneud taliadau i drydydd parti ar gyfer gwasanaethau uwch reolwr.

### Taliadau aelodau'r Awdurdod

4.13 Nid yw taliadau i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn amodol i Bensiwn.

4.14 Mae taliadau a wneir i'r Bwrdd hefyd yn amodol i ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ac nid yw wedi cynyddu ers 2009/10. Mae'r Cadeirydd yn derbyn cydnabyddiaeth o £33,688 y flwyddyn (2012/13: £33,688); mae aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth flynyddol o £7,881 (2012/13: £7,881) ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn cydnabyddiaeth flynyddol o £13,135 (2012/13: £13,135). Daeth cyfanswm taliadau i aelodau trwy gydol y flwyddyn i £90,696 (2012/13: £90,901) yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol.

4.15 Mae tâl aelodau yn amodol i dreth ac yswiriant gwladol trwy TWE.

4.16 Yn ogystal, ad-dalwyd costau yn dod i £12,056 (2012/13: £12,703) i aelodau'r Bwrdd. Mae costau teithio yn gysylltiedig â theithio i swyddfeydd yr Awdurdod yn amodol i dreth.

4.17 Mae taliadau'r aelodau wedi eu harchwilio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

4.18 Datgelir taliadau a wnaed i aelodau unigol isod.

***Taliadau a wnaethpwyd i aelodau Bwrdd yr Awdurdod yn ystod 2013/14***

| | 2013/14 Cyflog (bandiau o £5,000) | 2012/13 Cyflog (bandiau o £5,000) |
|---|---:|---:|
| **Cadeirydd** | | |
| Jill Pitkeathley | 30–35 | 30–35 |
| **Aelodau** | | |
| Ann Curno | 5–10 | 5–10 |
| Ian Hamer | 5–10 | 5–10 |
| Andrew Hind (Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Risg) | 10–15 | 10–15 |
| Sally Irvine | 5–10 | 5–10 |
| Stuart MacDonnell | 5–10 | 5–10 |
| Jayne Scott | 5–10 | 5–10 |



Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu

09 Mehefin 2014

# 5. Datganiad o gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu

### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

5.1 Dan Ganllaw ar Godau Arferion Gorau ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau cywirdeb yn ei ddefnydd o gronfeydd cyhoeddus ac am ateb ar gyfer eu defnydd. Dan Atodlen 7 paragraff 16 (2) Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi datganiad o gyfrifon parthed pob blwyddyn ariannol ar ffurf a sail a gyfarwyddir gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Iechyd, gyda chaniatâd Trysorlys EM. Dylid paratoi'r cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg gwir a theg o gyflwr yr Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant, cyfanswm newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

5.2 Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Arsylwi ar y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd Trysorlys EM, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgeliad priodol, a gweithredu polisïau cyfrifo priodol ar sail gyson
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- Datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifo perthnasol, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad materol yn y datganiadau ariannol
- Paratoi'r datganiadau ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol i ragdybio y bydd yr Awdurdod yn parhau i weithredu.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

5.3 Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Iechyd wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu'r Awdurdod. Sefydlir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys ei gyfrifoldeb ar gyfer cywirdeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus mae'n atebol amdanynt ac am gadw cofnodion cywir, ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Anadrannol Trysorlys EM a gyhoeddir yn Managing Public Money.

# 6. Datganiad llywodraethu

### Bwrdd yr Awdurdod

6.1 Mae gan Fwrdd yr Awdurdod gyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau fod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol ac am hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd ac effeithlon o'i adnoddau.

6.2 Mae Bwrdd yr Awdurdod yn cynnwys saith aelod anweithredol ac un aelod gweithredol. Mae pob aelod anweithredol o'n Bwrdd wedi eu penodi o blith y cyhoedd, fel ein bod yn gwbl annibynnol o'r rheolyddion gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yr ydym yn eu goruchwylio.

6.3 Mae gennym dîm gweithredol bychan yn ymdrin â'n tri maes gwaith: archwilio ac ansawdd; polisi a safonau; a'n llywodraethu a gweithredu.

### Cadeirydd y Bwrdd

6.4 Mae'r Cadeirydd yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol Adran Iechyd Lloegr ac i'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb arweinyddiaeth benodol ar y materion canlynol:

- Llunio strategaeth yr Awdurdod
- Sicrhau bod y Bwrdd, wrth wneud ei benderfyniadau, yn cymryd sylw dyledus o unrhyw ganllaw perthnasol a ddarparwyd gan y gweinidogion neu'r adrannau nawdd
- Hyrwyddo defnydd effeithiol, economaidd, ac effeithlon o adnoddau yn cynnwys staff
- Annog safonau uchel o gywirdeb
- Sicrhau fod y Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn a bod cofnodion y cyfarfodydd yn gofnod cywir o'r penderfyniadau a wnaed a, ble fo'n briodol, farnau aelodau unigol.

### Aelodau'r Bwrdd

| Aelod o'r Bwrdd | Penodwyd gan |
|---|---|
| Jill Pitkeathley (Cadeirydd) | Cyfrin Gyngor |
| Ann Curno | Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd |
| Ian Hamer | Gweinidogion Cymru |
| Andrew Hind | Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd |
| Sally Irvine | Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd |
| Stuart MacDonnell | Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, a Diogelwch y Cyhoedd Gogledd Iwerddon |
| Jayne Scott | Gweinidogion yr Alban |
| Harry Cayton | Bwrdd yr Awdurdod |

6.5 Rhodda Atodlen 7 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 gyfarwyddiadau ar gyfer penodi aelodau i'r Cyngor.[14]

6.6 Mae rhestr buddiannau ar gyfer pob aelod ar gael ar ein gwefan.[15]

### Ailbenodiadau

6.7 Yn gyffredinol gwneir penodiadau cyhoeddus am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, y gellir ei ymestyn am ail dymor. Ni ddylai cyfanswm yr amser a wasanaethir fod yn fwy nag wyth mlynedd. Pan sefydlwyd y CHRE, penodwyd aelodau'r Cyngor am dymhorau cychwynnol amrywiol er mwyn hwyluso didoriant yn y dyfodol.

6.8 Gwnaeth Deddf 2012 ddarpariaeth ar gyfer newidiadau i lywodraethu'r Awdurdod, gan gynnwys newidiadau i'r trefniadau ar gyfer penodiadau i Fwrdd yr Awdurdod. Nid yw'r rheoliadau i weithredu'r adran hon wedi eu cynhyrchu eto. Fodd bynnag, rydym yn deall y byddant yn dod yn 2014 ac y byddwn yn gallu dilyn eu gofynion ar gyfer penodiadau ac ailbenodiadau yn y flwyddyn i ddod.

6.9 Ni wnaethpwyd unrhyw benodiadau yn ystod 2013/14.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd

6.10 Cynhaliwyd chwech cyfarfod o'r Bwrdd rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014.

| Aelod o'r Bwrdd | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Jill Pitkeathley (Cadeirydd) | 6 |
| Ann Curno | 6 |
| Ian Hamer | 6 |
| Andrew Hind | 5 |
| Sally Irvine | 5 |
| Stuart MacDonnell | 5 |
| Jayne Scott | 5 |
| Harry Cayton | 6 |

6.11 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi bod yn weithredol o ran sicrhau y cynhaliwyd swyddogaethau presennol yr Awdurdod a bod y sefydliad yn barod ar ei rolau newydd. ***Cyflawnodd*** hyn trwy ddefnydd effeithiol a monitro'r gofrestr risg a thrwy fod yn wyliadwrus ynglŷn ag ansawdd ein hallbynnau.

6.12 Mae'r Bwrdd yn hyderus ei fod yn dal i dderbyn adroddiadau priodol, cyflawn a pherthnasol gan y gweithgor i sicrhau y gall gyflawni ei rôl strategol ac y gall ddal y gweithgor yn atebol. Darperir sicrwydd ansawdd gan y Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n adrodd i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu'r holl bapurau polisi ac adroddiadau allweddol i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel disgwyliedig. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau cyllid ac yn derbyn sicrwydd gan y Pwyllgorau Archwilio a Risg a Chraffu.

[14] Ar gael yn www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/17/contents
[15] Ar gael yn www.professionalstandards.org.uk/docs/board-related-documents/2012-council-register-of-interests.pdf?sfvrsn=0

6.13 Yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyllgor Archwilio a Risg wedi bod yn gweithio i gynhyrchu dogfen fframwaith sicrwydd a bydd hyn yn darparu sicrwydd pellach i'r Bwrdd.

6.14 Mae'r Bwrdd yn chwarae rôl bwysig o ran sefydlu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr Awdurdod ac mae'n ystyried hyn a materion eraill cysylltiedig yn ei ddiwrnod cynllunio blynyddol.

6.15 Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu ei berfformiad ei hun yn rhan o'i gynllunio strategol. Trafododd sut y cyflawnir arfarniadau o'r Bwrdd ac mae Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Craffu nawr yn rhoi sylwadau i'r Cadeirydd cyn cynnal arfarniadau. Mae'r Bwrdd o'r farn ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

6.16 O ystyried ei rôl mae'r Bwrdd wedi talu sylw priodol i gynllunio olyniaeth trwy ofyn i'r Adran Iechyd gymryd camau i weithredu'r ddeddfwriaeth ofynnol er mwyn penodi aelodau newydd yn amserol.

6.17 Mae cynnal ansawdd ein gwaith yn ystyriaeth bwysig i'r Bwrdd. Mae'n adolygu cyhoeddiadau ac adroddiadau pwysig cyn eu cyhoeddi ac yn cymryd diddordeb mewn ymchwil a datblygiad polisi.

6.18 Mae'r Bwrdd hefyd yn adolygu gwybodaeth a dderbynia am berfformiad yr Awdurdod gan bartïon allanol yn cynnwys y rheolyddion statudol, y cofrestrau gwirfoddol a'r Adrannau Iechyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yng Ngorffennaf 2013, cyflwynodd yr Awdurdod dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol Iechyd ac roedd y Bwrdd yn gallu darllen ac ystyried sylwadau'r pwyllgor ar ein gwaith.

6.19 Mae holl aelodau'r Bwrdd yn cael eu harfarnu yn flynyddol gan y Cadeirydd ac yn gallu rhoi sylw ar berfformiad y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae'r Cadeirydd yn cael ei arfarnu gan uwch was sifil yn yr Adran Iechyd.

6.20 Mae manylion sicrwydd ansawdd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Craffu ac i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adroddwn ar eu gweithgareddau ar wahân.

6.21 Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn adroddiadau cyllid ac yn derbyn sicrwydd gan y Pwyllgorau Archwilio a Risg a Chraffu.

## Pwyllgorau a gweithgorau'r Cyngor

### *Pwyllgor Archwilio a Risg*

6.22 Sefydlodd yr Awdurdod y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gefnogi yn ei gyfrifoldebau i reoli risg a llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn arolygu pa mor gynhwysfawr yw sicrwydd o ran bodloni anghenion sicrwydd Swyddog Atebolrwydd y Bwrdd ac adolygu dibynadwyedd a chywirdeb y sicrwydd hwn.

6.23 Cynhaliwyd pedwar cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Risg rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014

.

6.24 Roedd presenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y pwyllgor yn ystod 2013/14 fel a ganlyn:

| Aelodau'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Andrew Hind (Cadeirydd) | 4 |
| Stuart MacDonnell | 3 |
| Jayne Scott | 3 |

6.25 Adroddir ar gofnodion y cyfarfodydd yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

6.26 Mae'r pwyllgor yn adolygu ei gylch gorchwyl a rhaglen waith yn flynyddol ac yn adrodd unrhyw newidiadau y bydd yn cynnig eu gwneud i'r Bwrdd. Pob blwyddyn mae'n adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd ar:

- Ei waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf
- Asesiad o'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth
- Yr adroddiadau archwiliad mewnol a gyflwynwyd iddo
- Barnau'r archwilwyr allanol.

6.27 Adroddir ar gofnodion y cyfarfodydd yn ffurfiol i'r Bwrdd yn ogystal â barn y pwyllgor ar y gofrestr risg a'r newidiadau a wnaed iddi.

6.28 Mae'r pwyllgor yn gosod ei raglen waith ei hun ar gyfer y flwyddyn i ddod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr ac mae hyn yn dylanwadu ar y rhaglen waith a osodir ar gyfer archwiliad mewnol.

6.29 Ystyriwyd adroddiadau'r archwiliad mewnol gan y Pwyllgor:

- Rheoliadau ariannol
- Cynllun cofrestrau gwirfoddol achrededig
- Llywodraethu gwybodaeth

6.30 PricewaterhouseCoopers (PwC) ar ran yr Adran Iechyd, oedd ein harchwilydd mewnol yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14.

*Adroddiad archwiliad mewnol Rheoliadau Ariannol*

6.31 Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan PwC ar reoliadau ariannol yr Awdurdod. Er y nodwyd nifero gasgliadau canolig, mae'r adroddiad wedi arwain at raddiad boddhaol ac wedi casglu fod y rheoliadau ariannol yn gweithio'n dda, yn arbennig o ystyried y cyfyngiadau ar adnoddau.

*Adroddiad archwiliad mewnol y Cynllun AVR*

6.32 Derbyniodd y Pwyllgor hefyd yr adroddiad archwiliad mewnol ar y cynllun AVR. Dim ond un casgliad graddiad canolig, ynghyd â rhai casgliadau graddiad isel, a adroddwyd ac fe gyflawnwyd graddiad boddhaol yn gyffredinol.

*Adroddiad archwiliad mewnol llywodraethu gwybodaeth*

6.33 Mae rheoliadau ar y cynllun wedi bod yn rhedeg yn dda ac ni adroddwyd unrhyw faterion arwyddocaol.

*Cofrestr Risg*

6.34 Mae'r uwch dîm rheoli yn adolygu'r gofrestr risgiau yn chwarterol. Pob chwe mis, fe ystyrir yr adroddiad wedi ei ddiweddaru gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yna gan y Bwrdd. Bydd risgiau yn cael eu hychwanegu, diweddaru neu ddileu tu allan i'r broses hon wrth i'r angen godi.

6.35 Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y pwyllgor y gofrestru risg a gedwir gan y gweithgor. Trafodwyd y prif risgiau, gan ddelio'n fanwl â rhai yn yr adroddiad Strategol, yn ymwneud ag amseru'r trefniadau cyllid newydd, cost cyngor cyfreithiol a'r nifer gynyddol o achosion.

*Symud i ganolfan archwilio mewnol rheolyddion*

6.36 Mae'r Adran Iechyd wedi hysbysu'r Awdurdod o bresenoldeb canolfan archwilio gan ei fod yn credu y gallai'r Awdurdod fod eisiau ystyried symud iddo o ystyried ei rôl a threfniadau ariannu posibl. Roedd gan gyrff eraill sy'n ymwneud â'r ganolfan swyddogaeth glir yng ngwaith y llywodraeth, ond nid oeddynt yn eistedd yn glir o fewn adran benodol.

6.37 Byddai ffocws yr archwilydd mewnol a gontractiwyd i weithio gyda'r ganolfan ar ddelio â materion rheoleiddio a risgiau cysylltiedig, yn arbennig risgiau i enw da, yr oedd y ganolfan yn ystyried i fod yn risgiau'r un mor bwysig â'r rhai ariannol.

6.38 Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y byddai symud yn caniatáu mwy o gyfle i rannu dysgu gyda sefydliadau eraill tebyg.

6.39 Mynychodd yr Awdurdod gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn a phenderfynu symud i fod yn rhan o'r ganolfan ar gyfer 2014/15. Bu'r Awdurdod yn cymryd rhan yng ngwaith caffael yr archwilwyr mewnol ar gyfer y ganolfan.

*Polisi caffael*

6.40 Adolygodd a diwygiodd y Pwyllgor y polisi caffael i ddarparu gwell eglurder ynglŷn â lefelau caffael a mwy o ffocws o ran gwerth am arian.

*Archwiliad HMT a llawlyfr y pwyllgor sicrwydd risg*

6.41 Ystyriodd y Pwyllgor y llawlyfr Archwilio a Sicrwydd Risg wedi ei ddiweddaru gan y Trysorlys. Cynhyrchwyd rhestr wirio er mwyn gallu nodi pa ganllawiau yr oedd yn cydymffurfio â nhw a pha faterion allai fod angen ystyriaeth bellach.

6.42 Cytunwyd er mwyn gwella cysylltiadau a chyfathrebu, y dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol gydag archwilwyr mewnol ac allanol yn rhaglen waith y Pwyllgor er mwyn gallu'u cofnodi'n swyddogol yn y cofnodion.

6.43 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn adrodd unrhyw ddatganiadau budd gan aelodau'r Pwyllgor yn ffurfiol ac y byddai hyn yn eitem sefydlog ar agendâu'r pwyllgor, yn ogystal â'r arfer presennol ar agendâu'r Bwrdd.

6.44 Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Pwyllgor ei bod yn bwysig adolygu effeithlonrwydd ei waith yn ffurfiol. Awgrymwyd gan fod Cadeirydd yr Awdurdod wedi gwerthuso pob aelod yn flynyddol, y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys adran yn y sesiwn hwn i asesu eu heffeithlonrwydd o ran aelodaeth o'r Pwyllgor. I gynorthwyo yn hyn o beth, dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg gael cyfle i ddarparu adborth i aelodau i Gadeirydd yr Awdurdod wrth baratoi ar gyfer y gwerthusiadau. Dylai Cadeirydd yr Awdurdod ddarparu adborth i Gadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw faterion a godwyd gan yr aelodau.

### *Pwyllgor Craffu*

6.45 Mae'r Pwyllgor Craffu yn arolygu, monitro ac adrodd ar weithrediad craffu a goruchwylio'r Awdurdod o'r naw corff rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal. Eleni, am y tro cyntaf, fe ehangwyd ei gylch gorchwyl i gynnwys craffu o gynllun AVR yr Awdurdod.

6.46 Yn ystod 2013/14, mae pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu wedi canolbwyntio ar un o dri phrif faes gwaith y Tîm Craffu ac Ansawdd: adolygiad o benderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol (dan Adran 29 Deddf 2002), camau cyntaf archwiliadau a'r adolygiad perfformiad blynyddol.

6.47 Cynhaliwyd tri chyfarfod Pwyllgor Craffu rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

| Aelodau'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Sally Irvine (Cadeirydd) | 3 |
| Ann Curno | 3 |
| Ian Hamer | 3 |

6.48 Yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2013, penderfynodd y Pwyllgor y dylid cynnwys diweddariadau ar bob maes gwaith fel eitemau hirsefydlog ar bob agenda. Y meysydd gwaith perthnasol yw: craffu'r Awdurdod o'r broses benodiadau a ddefnyddiwyd gan wyth o'r rheolyddion parthed aelodau eu Cynghorau; ymarfer yr Awdurdod o'i hawl 'Adran 29' i gyfeirio penderfyniadau 'rhy drugarog' gan baneli addasrwydd i ymarfer y rheolyddion i'r llys; pryderon am y rheolyddion a dderbyniwyd gan yr Awdurdod; adolygiad archwilio a pherfformiad; a'r cynllun Cofrestrau Gwirfoddol Achrededig.

#### *Archwiliadau camau cyntaf*

6.49 Yng nghyfarfod y Pwyllgor craffu ym Mawrth 2014, adolygodd y pwyllgor yr adroddiadau archwilio o gylch archwilio 2013 ac fe gadarnhawyd ei fod yn fodlon gydag ansawdd yr adroddiadau hynny (ar y pryd roedd un adroddiad heb ei gyhoeddi).

6.50 Yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2013, cytunodd y pwyllgor ar y rheolyddion i'w harchwilio yn ystod 2014 yn seiliedig ar asesiad o'r risgiau perthnasol.

*Adolygiad o benderfyniadau terfynol addasrwydd i ymarfer (awdurdodaeth 'Adran 29' yr Awdurdod)*

6.51 Yn ei gyfarfodydd yn Rhagfyr 2013 a Mawrth 2014, adolygodd y Pwyllgor Craffu benderfyniadau a wnaethpwyd o ran cyfeirio/peidio cyfeirio penderfyniadau addasrwydd i ymarfer unigol y rheolyddion i'r llys a wnaethpwyd mewn cyfarfodydd achos Adran 29. Yng nghyfarfod Rhagfyr, adolygodd y Pwyllgor pob penderfyniad o'r fath a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac yng nghyfarfod Mawrth fe adolygodd y penderfyniadau a wnaethpwyd yn y cyfnod ers cyfarfod Rhagfyr. Ym mhob cyfarfod, fe adolygodd y Pwyllgor sampl bychan o achosion nad oeddynt wedi eu cyfeirio ymlaen ar gyfer cyfarfodydd achos Adran 29. Cytunodd y Pwyllgor fod y gweithgor wedi dod i benderfyniadau priodol ym mhob achos.

6.52 Yn ei gyfarfod ym Medi 2013, fe ystyriodd y Pwyllgor adroddiad gan archwilydd allanol yr Awdurdod i'r opsiynau posibl ar gyfer uchafu effeithlonrwydd proses yr Awdurdod i adolygu penderfyniadau addasrwydd i ymarfer terfynol. Yn dilyn eu hawgrym, cytunwyd y byddai staff yr Awdurdod yn cynnal rhywfaint o waith peilotio.

*Adolygiad perfformiad blynyddol o'r rheolyddion*

6.53 Yn ei gyfarfod ym Medi 2013, trafododd y Pwyllgor gynigion i adolygu'r broses adolygu perfformiad gyda'r nod o uchafu gwerth y data mae'r Awdurdod yn ei gasglu ar draws ei swyddogaethau Craffu ac Ansawdd mewn adroddiad blynyddol integredig ynglŷn â phob rheolydd, yn ogystal â diogelu'r broses ar y dyfodol i ystyried newidiadau a ragwelir yn yr amgylchedd allanol. Trafodwyd y cynigion hyn yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Awdurdod yng Ngorffennaf a Medi 2013.

*Gwaith arall*

6.54 Mae'r Pwyllgor wedi adolygu triniaeth yr Awdurdod o bryderon am y rheolyddion ac wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd apeliadau Adran 29 unigol a chraffu'r Awdurdod o'r prosesau mae'r rheolyddion yn defnyddio o ran penodi aelodau'r Cyngor.

6.55 Yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2013, cymeradwyodd y Pwyllgor newidiadau drafft i'w glych gorchwyl i gynnwys rôl newydd o ran craffu ar gynllun AVR yr Awdurdod. Fe ychwanegodd y Pwyllgor ddiweddariad am y cynllun AVR i restr o eitemau sefydlog i'w hadolygu ym mhob cyfarfod hefyd, wrth symud ymlaen. Cymeradwywyd yr addasiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn dilyn hynny mewn cyfarfod o'r Bwrdd.

### *Pwyllgor Tâl*

*Rôl*

6.56 Mae'r Pwyllgor Tâl yn cwrdd unwaith y flwyddyn, neu'n amlach os oes angen, i gytuno ar y cynnydd costau byw blynyddol i staff ac i ddelio â materion tâl eraill os ydynt yn codi.

6.57 Cynhaliwyd dau gyfarfod Pwyllgor Tâl rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014. Dangosir presenoldeb aelodau isod.

| Aelodau'r pwyllgor | Nifer o gyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|
| Jill Pitkeathley (Cadeirydd) | 2 |
| Ian Hamer | 2 |
| Andrew Hind | 2 |
| Harry Cayton (yn bresennol) | 1 |
| Linda Allan (yn bresennol) | 2 |

6.58 Gan fod y sefydliad yn dal yn amodol i gyfyngiadau tâl parhaus a osodwyd gan Swyddfa'r Cabinet, nid oedd yn ofynnol i'r pwyllgor ystyried unrhyw ddyfarniad tâl i'r staff yn 2013/14.

6.59 Ystyriodd y Pwyllgor effaith bosibl newidiadau i gyfraniadau pensiwn ar staff. Nododd y byddai newidiadau a weithredwyd yn Ebrill 2013 yn arwain at leihau faint o gyflog oedd gan rai o'r staff i'w wario pob mis. Fodd bynnag, nodwyd na fyddai gweithredu codiad cyflog o 1 y cant o 1Ebrill yn golygu y byddai angen i staff wneud cyfraniadau mwy. Cytunodd y Pwyllgor i ddali fonitro'r materion hyn.

6.60 Ystyriodd a chytunodd y Pwyllgor ar ychwanegu band cyflog newydd yn strwythur tâl presennol yr Awdurdod. Cododd yr angen am hyn o ganlyniad i angen i benodi uwch gyfreithiwr i gyflawni'r gwaith a wnaed yn flaenorol gan secondeion o gwmnïau cyfreithiol allanol.

6.61 Yn ystod 2013, adolygwyd a gwerthuswyd disgrifiadau swyddi'r uwch dîm rheoli, nad oeddynt wedi eu hadolygu ers 2010, yn annibynnol a'u gwerthuso yn defnyddio fformat cyflogau uwch yr Adran Iechyd.

6.62 Dynododd yr adroddiad dilynol pe byddai unrhyw Gyfarwyddwr yn gadael, y dylai, ac y byddai angen i, y cyflog ar gyfer y penodiad newydd fod yn sylweddol uwch. Roedd y pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r risg posibl o hawliadau cydraddoldeb pe na fyddai cyflogau'r Cyfarwyddwyr yn dal i fod yn gyfartal yn dilyn penodiad i'r fformat newydd.

6.63 Felly roedd cynigiodd y pwyllgor tâl y dylid cynnal trafodaethau gyda'r Adran ynglŷn â'r posibiliad o daliad recriwtio a dargadw i'r cyfarwyddwyr.

6.64 Wedi nodi'r nifer o staff a fu ar absenoldeb mamolaeth, ystyriodd y Pwyllgor y mater o absenoldeb tadolaeth ac ystyried polisi'r Awdurdod o gymharu â chyrff sector cyhoeddus eraill. Cytunodd y Pwyllgor y dylai staff allu cymryd hyd at bythefnos o absenoldeb tadolaeth â thâl.

6.65 Nid oes gan yr Awdurdod Bwyllgor Enwebiadau. Byddai'r Pwyllgor Tâl yn cyflawni'r rôl hon pe byddai'r angen yn codi.

### Rheoliadau cynllun pensiwn

6.66 Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o Gynllun Pensiwn y GIG, mae gan yr Awdurdod fesurau rheoli i sicrhau y cydymffurfir â phob gofyniad ar gyflogwyr o fewn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau fod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn unol â'r rheolau, a bod cofnodion cynllun pensiwn aelodau yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlen a fanylir yn y rheoliadau.

6.67 Mae diogelu data sydd yn ein meddiant a cheisiadau i'w ddatgelu yn parhau i fod yn ystyriaethau pwysig i ni.

### Trin data

6.68 Mae'n system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar ofynion sylfaenol Swyddfa'r Cabinet ac rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ein cydymffurfiad gyda nhw.

6.69 Ychydig iawn o wybodaeth bersonol a gedwir gennym. Mae'r prif ddata sydd gennym yn ymwneud â'n staff ein hun. Ble byddwn angen mynediad at ddata personol a gedwir gan eraill, fel arfer fe gyflawnir hyn yn eiddo deiliad y data. Rhaid i staff sy'n cyflawni archwiliadau yn rhan o adolygiad perfformiad weithio trwy fynediad o bell i'n gweinydd ble bynnag fo'n bosibl. Gan nad yw hyn yn bosibl ar bob adeg, mae'r archwilwyr yn defnyddio gliniaduron wedi eu hamgryptio i ddarparu haen arall o ddiogelwch.

6.70 Mae staff yn cyflawni hyfforddiant ar-lein 'Amddiffyn Gwybodaeth' y llywodraeth. Mae'r hyfforddiant wedi ei rannu i dair lefel ac yn seiliedig ar asesiad.

6.71 Rhaid i'r holl staff gwblhau'r lefel sy'n briodol i'w lefel o gyfrifoldeb ar gyfer trin data. Mae pob aelod o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hyd yn hyn wedi pasio'r asesiad.

6.72 Gan ein bod wedi cael sawl aelod newydd parhaol o staff a bod gennym nifer o staff dros dro yn gweithio gyda ni, yn ystod 2013/14 fe drefnom hyfforddiant llywodraeth gwybodaeth fewnol. Roedd hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ein polisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth.

6.73 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu datganiad ei fod yn fodlon bod gennym bolisïau priodol i'r staff ddilyn, cyn belled â'u bod yn berthnasol i'r Awdurdod, a bod prosesau priodol yn eu lle i liniaru risgiau i'n gwybodaeth.

### Cwmpas y cyfrifoldeb

6.74 Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyfarnwyd i mi yn Managing Public Money.

6.75 Mae'r Awdurdod yn adrodd i Senedd y Deyrnas Unedig ac yn cydweithio'n agos â'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a gyda'r Adran Iechyd yn Lloegr, i gyflenwi'n hoblygiadau statudol ac amcanion

allweddol ein cynllun busnes. Mae hyn yn cynnwys nodi ac ymateb yn briodol i risgiau mewnol ac allanol.

### Pwrpas y system reolaeth fewnol

6.76 Mae’r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i reoli i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethu cyflawni’r polisïau, amcanion a’r nodau; gall y drefn felly roi sicrwydd rhesymol yn unig, nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd.

6.77 Mae’r system o reolaeth fewnol wedi ei chynllunio i nodi a blaenoriaethu’r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, i werthuso’r tebygolrwydd y cyflawnir y risgiau hynny a’r effaith pe byddant yn cael eu cyflawni, ac i’w rheoli’n effeithiol, effeithlon ac economaidd.

6.78 Mae’r system o reolaeth fewnol wedi bod yn weithredol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo’r adroddiad a chyfrifon blynyddol, ac yn cyd-fynd â chanllaw Trysorlys EM. Mae elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yn cynnwys:

- Gweithdrefnau ariannol yn manylu rheoliadau ariannol, ar gyfer cyfrifoldebau ac awdurdodau a ddirprwywyd i’r tîm rheoli
- Prosesau cynllunio busnes yn sefydlu amcanion yr Awdurdod wedi eu cefnogi gan fanylion incwm blynyddol, gwariant, cyfalaf a chyllidebau llif arian
- Adolygiadau rheolaidd o berfformiad, ynghyd ag adrodd amrywiant, cynllunio senario ac ail-ddarogan.

### Adolygiad Effeithiolrwydd

6.79 Fel Swyddog Cyfrifyddu, yr wyf â chyfrifoldeb dros gynnal system ddiogel o reolaeth fewnol. Hysbysir fy adolygiad o waith yr archwilwyr mewnol, a'r Tîm Rheoli sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y rheoliadau mewnol, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae’r Pwyllgor Archwilio a Risg a’r Bwrdd wedi fy nghynghori o oblygiadau canlyniadau fy adolygiad ar y system o reolaeth fewnol. Mae’r Pwyllgor Craffu wedi ystyried ein perfformiad yn erbyn ein safonau ein hunain o’n swyddogaethau statudol yn ofalus iawn eleni.

6.80 Cynhaliwyd ac adolygwyd effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol trwy:

- Bwrdd yr Awdurdod, a gyfarfu chwech o weithiau
- Y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy’n cynnwys tri aelod o’r Bwrdd. Fe fynychais gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd ynghyd â’r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gweithrediadau, y Rheolwr Cyfrifo a chynrychiolwyr o’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a’n harchwilwyr allanol
- Trefniadau rheoli risg fel y disgrifiwyd, ble mae risgiau allweddol allai effeithio ar gyflawniad ein hamcanion wedi eu rheoli’n weithredol, gan adrodd ar gynnydd i’r Pwyllgor Archwilio a Risg a thrwyddo i Fwrdd yr Awdurdod.
- Ein hasesiad blynyddol o reolaeth risg gwybodaeth a gyflawnwyd yn unol â chanllaw Swyddfa’r Cabinet

- Adroddiadau rheolaidd gan yr archwilwyr mewnol, PricewaterhouseCoopers, yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y llywodraeth, sy’n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein rheoliadau mewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliannau ble fo angen.
- Sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

6.81 Daeth y fframwaith Adran Iechyd a ddefnyddiwyd i gaffael ein gwasanaethau archwilio mewnol i ben ar 31 Mawrth 2013. Penodwyd PwC yn archwilwyr mewnol i ni ar 1 Ebrill 2014 gan ddarparu adroddiad i’r Pennaeth Archwiliad Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn. Datganodd yr adroddiad:

> *‘Fy marn gyffredinol yw y gallaf roi sicrwydd boddhaol i’r Swyddog Cyfrifyddu fod yr Awdurdod Safonau Proffesiynol wedi cael systemau digonol ac effeithiol o reolaeth, llywodraethu a rheoli risg yn ei le ar gyfer y flwyddyn adrodd 2013/14.’*

6.82 Bydd yr Awdurdod yn symud o ganolfan archwiliad mewnol yr Adran Iechyd i’r ganolfan archwilio fewnol rheoleiddio o 1 Ebrill 2014. Yr Archwilydd Mewnol ar gyfer canolfan y rheoleiddiwr yr Grant Thornton.

6.83 Nid wyf o’r farn fod gennym unrhyw wendidau arwyddocaol yn ein system o reoliadau mewnol. Mae rhaglen o fonitro parhaus yn bodoli, mewn ymgynghoriad â’r Pwyllgor Archwilio a Risg, archwilwyr mewnol ac archwilwyr allanol, i sicrhau ein bod yn bodloni safonau arfer gorau ym mhob maes o’n gweithrediadau.

6.84 Yn ystod 2013/14, gweithiodd y Pwyllgor Archwilio i ystyried y dulliau o sicrwydd y gallent hwy a’r Bwrdd gael o ran gwaith yr Awdurdod. Mae’r gwaith hwn wedi arwain at gynhyrchu dogfen fframwaith sicrwydd.


6.85 Ystyrir dylanwadau mewnol ac allanol gan drafod unrhyw risgiau allai fod yn arwyddocaol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn gynted ag y’i gwelir.

6.86 Rydym yn parhau i adolygu ein trefniadau mewn ymateb i ddatblygiadau allanol.

6.87 Rwy’n fodlon fod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu’n ddigonol y risgiau gwybodaeth yr ydym oll wedi wynebu ac y byddwn yn wynebu yn y dyfodol, yn ogystal â’n gweithredoedd i reoli’r risgiau gwybodaeth yn effeithiol. Rwy’n fodlon y rheolwyd unrhyw faterion risg gwybodaeth yn briodol. Rwy’n hyderus fod staff yr Awdurdod yn ymwybodol o’u cyfrifoldeb i storio, rhannu a dinistrio gwybodaeth yn ddiogel.

6.88 Rwy’n cadarnhau bod yr asesiad o reolaeth risg gwybodaeth wedi ei gwblhau’n foddhaol ac y gellir defnyddio’r wybodaeth ar gyfer ein datganiad llywodraethu blynyddol.

6.89 Rwy’n cadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â’r Cod Llywodraethu Corfforaethol fel y manylwyd yn DAO(GEN)02/12 – Datganiadau Llywodraethu cyn belled â’i fod yn berthnasol i ni.



Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu
09 Mehefin 2014

# 7. Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinoli'r Tŷ Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol 2012. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Sefyllfa Ariannol, Llifoedd Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr, a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifyddu a sefydlwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel adroddiad sydd wedi'i archwilio.

### Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad ar Gyfrifoldebau'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb fi yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â'r Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Rwyf wedi cyflawni fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon).  Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn casglu tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datguddiadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad materol, p'un a ydynt o ganlyniad i dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: p'un a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rwy'n darllen yr hollwybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi unrhyw anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos i fod yn faterol anghywir yn seiliedig ar, neu yn faterol anghyson gyda, yr wybodaeth a gaffaelwyd gennyf wrth gyflawni'r archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol ymddangosiadol neu anghysondeb rwy'n ystyried yr oblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Rhaid i mi gasglu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar gysondeb

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y maent ar 31 Mawrth 2014 ac o'r gost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd dani.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w archwilio wedi ei baratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dan Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn Adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### Materion yr wyf yn adrodd eithriad arnynt

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd parthed y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifo digonol neu na dderbyniwyd dychweliadau digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl i'w archwilio yn cytuno â'r cofnodion neu ddychweliadau cyfrifo; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu

- nad yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiad â chanllaw Trysorlys EM.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**Llundain**
**SW1W 9SP**

**16 Mehefin 2014**

# 8. Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | | | Mawrth 2014<br>£'000 | | Mawrth 2013<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| ***Gwariant*** | | | | | |
| Costau staff | 3 | | 1,878 | | 1,492 |
| Costau gweinyddol eraill | 4 | | 1,722 | | 2,026 |
| ***Incwm*** | | | | | |
| Incwm gweithredu | 5 | | (398) | | (323) |
| **Costau gweithredu net** | | | **3,202** | | **3,195** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn

### Gwariant net cynhwysfawr arall

Nid oes unrhyw wariant net cynhwysfawr arall yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

# 9. Datganiad o safle ariannol ar 31 Mawrth 2014

| | | Mawrth 2014 | | Mawrth 2013 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Sylwer | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Asedau anghyffyrddadwy | 6 | 353 | | 390 | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 7 | 113 | | 114 | |
| ***Cyfanswm asedau nad ydynt yn gyfredol*** | | | ***466*** | | ***504*** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 8 | 278 | | 291 | |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 9 | 256 | | 206 | |
| ***Cyfanswm asedau cyfredol*** | | | ***534*** | | ***497*** |
| **Cyfanswm Asedau** | | | **1,000** | | **1,001** |
| | | | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 10 | (253) | | (222) | |
| **Darpariaethau** | 11 | (6) | | (6) | |
| ***Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol*** | | | ***(259)*** | | ***(228)*** |
| | | | | | |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol llai asedau/(atebolrwydd) net cyfredol** | | | **741** | | **773** |
| | | | | | |
| **Asedau llai atebolrwydd** | | | **741** | | **773** |
| | | | | | |
| **Wrth gefn** | | | | | |
| Cronfa wrth Gefn Gyffredinol | | | **741** | | **773** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn



Harry Cayton
Swyddog Cyfrifyddu

09 Mehefin 2014

# 10. Datganiad llif arian ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | Sylwer | Mawrth 2014 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn | | (3,202) | (3,195) |
| Addasiad ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian | 4 | 108 | 62 |
| Lleihad/(cynnydd) mewn masnach a derbynion eraill | 8 | 13 | (31) |
| Cynnydd/(lleihad) mewn masnach ac elfennau taladwy eraill | 10 | 31 | (63) |
| (Lleihad)/cynnydd mewn darpariaethau | 11 | - | 3 |
| ***All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol*** | | ***(3,050)*** | ***(3,224)*** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 7 | (67) | (14) |
| Prynu asedau anghyffwrddadwy | 6 | (3) | (390) |
| ***Llif arian net o weithgareddau buddsoddi*** | | ***(70)*** | ***(404)*** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| ***Cyllid grant gan yr Adran Iechyd:*** | | | |
| **Incwm** | | 2,765 | 2,896 |
| **Cyfalaf** | | 69 | 404 |
| *Cyllid Gweinyddiaethau Datganoledig:* | | | |
| Yr Alban | | 180 | 200 |
| Cymru | | 103 | 115 |
| Gogledd Iwerddon | | 53 | 64 |
| ***Llif arian net o weithgareddau ariannu*** | | ***3,170*** | ***3,679*** |
| ***Cyllid net*** | | | |
| **Cynnydd net mewn arian a chyfatebol i arian** | 9 | 50 | 51 |
| **Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r flwyddyn ariannol** | 9 | 206 | 155 |
| **Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y cyfnod ariannol** | 9 | **256** | **206** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# 11. Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014

| | | Cronfa gyffredinol |
|---|---|---|
| | | £'000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2012** | | **289** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2013** | | |
| **Costau gweithredu net** | | (3,195) |
| | | |
| Incwm | | 2,896 |
| Cyfalaf | | 404 |
| Yr Alban | | 200 |
| Cymru | | 115 |
| Gogledd Iwerddon | | 64 |
| | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2013** | | **773** |
| | | |
| **Newidiadau mewn cronfa wrth gefn yn y flwyddyn ddaeth i 31 Mawrth 2014** | | |
| | | |
| **Costau gweithredu net** | | (3,202) |
| *Cyllid grant gan yr Adran Iechyd:* | | |
| Incwm | | 2,765 |
| Cyfalaf | | 69 |
| *Cyllid gan y gweinyddiaethau datganoledig:* | | |
| Yr Alban | | 180 |
| Cymru | | 103 |
| Gogledd Iwerddon | | 53 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | | **741** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 56 i 71 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# 12. Nodiadau i’r cyfrifon

## 1. Polisïau cyfrifo

### *Sail paratoi*

Mae’r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2013/14 a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Mae’r polisïau cyfrifo sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso’r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y’i haddaswyd neu dehonglwyd ar gyfer cyd-destun sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Ble fo’r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, dewiswyd y polisi cyfrifo a farnir i fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod i’r diben o roi golwg wir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod adrodd isod. Maent wedi eu cymhwyso’n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir i fod yn faterol i’r cyfrifon.

### *Dyfarniadau cyfrifo critigol a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif*

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifo'r Awdurdod, rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â chario symiau o asedau ac atebolrwydd nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae’r amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir i fod yn berthnasol. Efallai y bydd y gwir ganlyniadau yn wahanol i’r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a’r tybiaethau sylfaenol yn barhaus. Cydnabyddir adolygiadau i’r amcangyfrifon cyfrifo yn y cyfnod pan adolygir yr amcangyfrif os yw’r adolygiad yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu yng nghyfnod yr adolygiad a chyfnodau yn y dyfodol sy’n adlewyrchu cyfnodau presennol ac yn y dyfodol.

### *Asedau nad ydynt yn gyfredol*

### *Asedau anghyffyrddadwy*

*Asedau anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol*

Cydnabyddir ased anghyffwrddadwy a grëwyd yn fewnol o weithgareddau a gwariant yr Awdurdod pan fydd yr holl amodau canlynol wedi eu bodloni:

- Crëir ased y gellir ei hadnabod (megis meddalwedd neilltuol)
- Mae’n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn creu manteision economaidd yn y dyfodol
- Gellir mesur cost datblygu’r ased yn ddibynadwy.

Mae asedau sefydlog anghyffwrddadwy yn cael eu mesur yn ôl cost.

Ar gyfer asedau anghyffwrddadwy gyda bywydau defnyddiol cyfyngedig, cyfrifir amorteiddiad er mwyn gallu dileu cost ased, llai ei werth gweddilliol amcangyfrifiedig, dros ei fywyd economaidd defnyddiol.

Codwyd amorteiddiad cronfa ddata o'r dyddiad y dechreuwyd defnyddio'r ased, ac mae wedi ei amorteiddio ar sail llinell syth ers dros 10 mlynedd.

### *Eiddo, peiriannau ac offer*

Cyfalafir asedau nad ydynt yn gyfredol ac eithrio meddalwedd cyfrifiadurol fel eiddo, peiriannau ac offer fel a ganlyn:

- Offer gyda gwerth unigol o £1,000, neu fwy
- Asedau mewn grŵp o natur debyg gyda gwerthu cytûn o £1,000 neu fwy
- Costau ailwampio gyda gwerth o £1,000 neu fwy.

Dan egwyddorion cyfrifo cost hanesyddol addasedig, pennir bod cost dibrisiad hanesyddol yn ddirprwy addas ble mae gan yr ased fywyd economaidd byr neu o werth isel. Nid yw mynegeio wedi ei gymhwyso ers 31 Mawrth 2008 gan na fyddai hyn yn faterol. Bydd gwerthusiad asedau yn cael eu hadolygu yn flynyddol, ar ddyddiad pob datganiad o safle ariannol, i sicrhau bod y gwerth i'w gario yn adlewyrchiad teg o'r gost bresennol.

Darperir dibrisiant ar sail linol, wedi ei gyfrifo ar y swm a ddatgelwyd i ddileu asedau, llai unrhyw falans gweddilliol a amcangyfrifir, yn ystod eu bywyd defnyddiol sy'n weddill.

Mae bywydau defnyddiol asedau nad ydynt yn gyfredol wedi eu hamcangyfrif fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau yn ystod gweddill tymor prydles y llety
- Offer cyfrifiadurol – tair blynedd.

Codir dibrisiant o'r mis pan gaffaelwyd yr ased.

### *Arian yn y banc ac mewn llaw*

Mae arian yn arian mewn llaw ac arian a gadwyd mewn unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr.

Yn y datganiad o lif arian parod, dangosir arian parod yn net o orddrafftiau banc a gedwir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS) sy'n rhan ganolog o reolaeth arian yr Awdurdod ac y mae gan yr Awdurdod hawl i'w osod yn erbyn cyfrifon GBS eraill mewn credyd.

### *Cyllid cymorth grant a chronfa wrth gefn cyffredinol*

Ariennir yr Awdurdod trwy gymorth grant gan yr Adran Iechyd.

Trinnir refeniw cymorth grant a dderbynnir gan yr Adran Iechyd, ac a ddefnyddir i ariannu gweithgareddau a gwariant i gefnogi amcanion statudol ac

eraill yr Awdurdod fel cyfraniad gan blaid lywodraethol gan arwain at ddiddordeb ariannol yn y llog gweddillol yn yr Awdurdod, ac felly fe roddir cyfrif ohono fel ariannu trwy eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa ganolog ar sail arian a dderbyniwyd.

Rhoddir cyfrif o'r cyfraniadau ariannol i weithgareddau'r Awdurdod gan y sefydliadau datganoledig hefyd fel ariannu trwy eu credu'n uniongyrchol i'r gronfa ganolog ar sail arian a dderbyniwyd.

### *Incwm gweithredu*

Mae'r incwm gweithredu yn cynnwys: adferiadau cost achosion Adran 29; incwm eiddo a dderbynnir gan is-denantiaid; ffioedd a dderbynnir o gyflawni adolygiad perfformiad annibynnol o Goleg Llawfeddygon Deintyddol Ontario; adolygiad annibynnol o addasrwydd i ymarfer Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iwerddon; adroddiad ar gyfer y Sefydliad Iechyd; a ffioedd achredu a dderbynnir gan ymgeiswyr cofrestrau gwirfoddol sydd eisiau derbyn achrediad.

Mae incwm cofrestrau gwirfoddol yn cynnwys ffioedd achredu sefydlog na ellir eu had-dalu, sy'n daladwy pan fydd dogfennau cais wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod, a ffioedd adnewyddu, sy'n daladwy pan ddaw blwyddyn yr achrediad i ben. Cydnabyddir incwm o ffioedd cychwynnol ac adnewyddu yn y datganiad cost gweithredu yn unol â chwblhau gwaith yr Awdurdod parthed y rhain.

### *Costau cymharol ac ail ddatganiadau*

### *Costau ac adferiadau Adran 29*

Dan ei rymoedd Adran 29, gall yr Awdurdod apelio i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniad disgyblu corff rheoleiddio. Codir costau'r Awdurdod wrth weithred apeliadau Adran 29 ar y datganid cost gweithredu ar sail croniadau.

O ganlyniad i farnwriaeth a wneir gan y llysoedd, gellir dyrannu costau i'r Awdurdod os yw'r achos yn llwyddiannus, neu gellir dyrannu costau yn erbyn yr Awdurdod os collir yr achos. Ble dyrannir costau i, neu yn erbyn, yr Awdurdod, gellir diddymu neu leihau'r rhain yn hwyrach o ganlyniad i apêl lwyddiannus naill ai gan yr amddiffynnydd neu'r Awdurdod. Cyn ystyried naill ai incwm neu wariant, mae'r Awdurdod yn ystyried canlyniad tebygol pob achos yn ôl ei rinweddau felly.

Os dyrannir costau'r achos i'r Awdurdod, ni ddaw'r incwm i gyfrif oni bai bod dyfarniad terfynol diwrthwynebiad o blaid yr Awdurdod neu gytundeb rhwng pleidiau o'r gyfradd o gostau fyd yn cael eu talu a'u cyflwyno i'r llysoedd. Pan fydd achos wedi ei ennill od y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol iawn y bydd yr achos cael ei ennill ar apêl a chostau'n cael eu dyfarnu i'r Awdurdod, fe ddatgelir ased amodol.

Yn achos costau a ddyrannir yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir costau yn incwm a gwariant pan fydd dyfarniad diwrthwynebiad terfynol yn erbyn yr Awdurdod. Yn ogystal, os collwyd achos ond bod y canlyniad terfynol yn dal yn amodol i apêl, a'i bod yn debygol y bydd costau yn cael eu dyfarnu yn erbyn yr Awdurdod, cydnabyddir darpariaeth yn y cyfrifon. Ble'i bod yn bosibl ond nid yn

debygol y bydd yr achos yn cael ei golli ar apêl ac y gallai'r Awdurdod fod yn amodol i gostau, neu ble a ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r swm sy'n daladwy, datgelir atebolrwydd amodol.

### *Treth ar Werth*

Ni ellir adfer treth ar werth (TAW) ar bwrcasau, felly mae'n gost yn y datganiad cost gweithredu ac wedi ei gynnwys dan y pennawd perthnasol i'r math o wariant, na'i gyfalafu os yw'n ymwneud ag ased.

### *Buddion byrdymor i gyflogeion*

Cydnabyddir cyflogau yn y cyfnod pan dderbynnir gwasanaeth gan gyflogeion. Cydnabyddir cost gwyliau a enillwyd ond na chymerwyd gan gyflogeion ar ddiwedd y flwyddyn yn y datganiadau ariannol i'r fath raddau ag y caniateir i gyflogeion gario'r gwyliau ymlaen i'r cyfnod dilynol.

### *Costau budd-daliadau ymddeoliad*

Mae cyflogeion presennol a gorffennol wedi eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG. Mae'r cynllun yn gynllun budd-daliadau diffiniedig, di-nawdd sy'n cwmpasu cyflogeion y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Ni fwriedir i'r cynllun gael ei redeg mewn unrhyw fodd fyddai'n galluogi cyrff y GIG i adnabod eu cyfran o'r asedau ac atebolrwydd sylfaenol y cynllun.

Felly, cyfrifir ar gyfer y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniad diffiniedig; cymerir y gost i'r GIG o gymryd rhan yn y cynllun fel cyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Ar gyfer ymddeol yn gynnar, ac eithrio oherwydd salwch, ni ariennir y taliadau atebolrwydd pensiwn atodol gan y cynllun. Codir swm llawn yr atebolrwydd ar gyfer costau atodol i'r datganiad incwm ar yr un pryd ag y mae'r Awdurdod yn ymroi ei hun i ymddeoliad, waeth beth yw'r dull talu.

### *Prydlesi gweithredol*

Rhoddir cost rhent sy'n daladwy dan brydlesau gweithredol ar y datganiad cost gweithredu ar sail gronnol.

### *Cyfraddau cyfnewid tramor*

Trosir trafodion mewn gwerth arian tramor i bunt sterling ar y mesur cyfradd cyfnewid ar ddiwrnod pob trafodyn, ac eithrio ble nad yw cyfraddau'n amrywio'n sylweddol, pan ddefnyddir cyfartaledd cyfradd ar gyfer cyfnod. Dygir enillion a cholledion cyfnewid sy'n dilyn i'r datganiad cost gweithredu.

### *Colledion a thaliadau arbennig*

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai'r Senedd wedi ystyried wrth gytuno ar gyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu basio deddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi'n ddelfrydol. Felly maent yn amodol i weithdrefnau rheoli arbennig o gymharu â thaliadau cyffredinol. Fe'i rhennir yn gategorïau gwahanol, sy'n llywodraethu'r modd y delir â phob achos unigol.

Rhoddir cost colledion a thaliadau arbennig dan y penawdau swyddogaethol perthnasol yn cynnwys colledion y gellid fod wedi eu hadennill trwy yswiriant os na fyddai'r Awdurdod yn cario'i risg ei hun (gyda phremiymau yswiriant wedi eu cynnwys fel gwariant arferol). Nid oes gan yr Awdurdod yswiriant yn gyffredinol, ond roedd ganddo yswiriant penodol parthed teithio a pharhad busnes.

### *Offerynnau ariannol*

Fel sy'n ofynnol gan yr FReM, mae'r Awdurdod wedi ateb am offerynnau ariannol ac wedi gwneud datgeliadau yn ymwneud â'r offerynnau ariannol hynny, yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 32 a 39 a Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 7.

### *Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), addasiadau a dehongliadau dan sylw ond nid eto'n effeithiol neu wedi eu mabwysiadu*

Mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS8), polisïau cyfrifo, newidiadau mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, yn gofyn am ddatgeliadau parthed IFRSau newydd, addasiadau a dehongliadau sydd, neu a fydd yn berthnasol wedi'r cyfnod cyfrifyddu. Mae yna nifer o IFRSau, addasiadau a dehongliadau a gyhoeddir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol sy'n effeithiol ar gyfer datganiadau ariannol wedi'r cyfnod cyfrifo hwn. Nid yw'r canlynol wedi eu mabwysiadu'n gynnar gan yr Awdurdod:

- IAS 32 Atredu Asedau Ariannol ac Atebolrwydd Ariannol
- IAS 36 Datgeliad Swm Adferadwy ar gyfer Asedau Nad ydynt yn Ariannol
- IFRS 9 Arfau Ariannol
- IAS 9 Newyddiad Deilliadau a Pharhad o Gyfrifo Rhagfantoli
- Endidau Buddsoddi (addasiadau i IFRS 10, IFRS 12 ac IAS 27).

Nid yw'r un o'r safonau a dehongliadau addasedig hyn yn debygol o fod yn berthnasol ac ni ragwelir y byddant yn cael effaith materol yn y dyfodol ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod.

### *Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi eu mabwysiadu'n gynnar*

Nid yw'r Awdurdod wedi mabwysiadu unrhyw IFRSau, addasiadau na dehongliadau yn unig.

## 2. Dadansoddiad net o gostau gweithredu fesul segment

### *Dadansoddiad segmentol*

Cododd costau gweithredu net i bedwar prif ffrwd gwariant yr Awdurdod fel a ganlyn. Nid yw'r Awdurdod yn cynnal datganiadau o safle ariannol ar wahân ar gyfer y timau hyn. Ni chafwyd unrhyw drafodion ar y cyd rhwng segmentau yn y flwyddyn.

| Blwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 | Safonau a rheoliadau | Comisiynau'r Llywodraeth | Gweithgareddau a thâl | Cofrestrau gwirfoddol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau gweithredu | 3,277 | 9 | 9 | 305 | **3,600** |
| Incwm gweithredu | (244) | - | (38) | (116) | **(398)** |
| **Costau gweithredu net** | **3,033** | **9** | **(29)** | **189** | **3,202** |
| Blwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2013 | Safonau a rheoliadau | Comisiynau'r Llywodraeth | Gweithgareddau a thâl | Cofrestrau gwirfoddol | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau gweithredu | 3,026 | - | 318 | 174 | **3,518** |
| Incwm gweithredu | (268) | - | - | (55) | **(323)** |
| **Costau gweithredu net** | **2,758** | **-** | **318** | **119** | **3,195** |

## 3. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

### *Cyfartaledd nifer o bobl a gyflogir*

Mae cyfartaledd y nifer o staff llawn amser a rhan amser a gyflogir (yn cynnwys staff dros dro) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2013/14 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 33.66 | 0.91 | **34.57** | **24.59** | 0.78 | **25.37** |

Ni chyflogwyd unrhyw staff ar brosiectau cyfalaf yn y cyfnod i 31 Mawrth 2014.

### *Costau personau a gyflogir*

Cynyddodd costau staff yn 2014 mewn ymateb i'r cynnydd arwyddocaol mewn achosion addasrwydd i ymarfer a hysbyswyd i ni a'r gyfran uwch o achosion sydd angen ei mewnbwn o ran bwydo pwyntiau dysgu'n ôl i'r rheolyddion, cynnal cyfarfodydd achos a gwneud atgyfeiriadau llys.

| | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2013/14 | Cyflogir yn barhaol | Arall | Cyfanswm 2012/13 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 1,492 | - | 1,492 | 1,179 | - | 1,179 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 138 | - | 138 | 92 | - | 92 |
| Costau pensiynau | 179 | - | 179 | 150 | - | 150 |
| Costau asiantaeth/staff dros dro | - | 69 | 69 | - | 71 | 71 |
| | **1,809** | **69** | **1,878** | **1,421** | **71** | **1,492** |

### *Adrodd cynlluniau Gwasanaeth Sifil a digolledu eraill: pecynnau gadael*

Talwyd costau diswyddiad a gadael eraill yn unol â chanllawiau'r Adran Iechyd a chyfraith cyflogaeth, ac fe gyfrifir amdanynt yn y flwyddyn adael.

| Band cyflog pecyn gadael | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd | Cyfanswm pecynnau gadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | **1** | **0** | **1** |
| **Cyfanswm pecynnau gadael** | **1** | **0** | **1** |

## 4. Costau gweinyddol eraill

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Tâl aelodau | | 91 | 91 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 656 | 1,145 |
| Eiddo a pheiriannau sefydlog | | 562 | 519 |
| Hyfforddiant a recriwtio | | 97 | 56 |
| PR, cyfathrebu a chynadleddau | | 58 | 14 |
| Costau sefydliadol | | 84 | 79 |
| Ffi archwiliad allanol (**) | | 21 | 23 |
| Costau eraill | | 45 | 37 |
| **Gwariant nad yw'n arian parod:** | | | |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | | - | - |
| Amorteiddiad | 6 | 40 | - |
| Dibrisiant | 7 | 68 | 62 |
| **Cyfanswm costau gweinyddol** | | **1,722** | **2,026** |

Gwnaeth yr Awdurdod daliadau o £248,000 i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am waith nad oedd yn waith archwilio parthed costau llety'r Awdurdod am ddefnydd o ofod swyddfa yn 157-197 Buckingham Palace Road, Llundain.

## 5. Incwm gweithredu

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Adfer costau Adran 29 | 60 | 36 |
| Incwm cofrestrau gwirfoddol achrededig | 116 | 55 |
| Ffioedd o gwsmeriaid allanol | 38 | 25 |
| Incwm is-denantiaid | 175 | 207 |
| Incwm gweithredol arall | 9 | - |
| Cyfanswm Incwm Gweithredol | **398** | **323** |

## 6. Asedau anghyffyrddadwy

| 31 Mawrth 2014 | Cronfa ddata Adran 29 |
|---|---:|
| | £'000 |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 390 |
| Ychwanegiadau | 3 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 393 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 0 |
| Cost am y cyfnod | 40 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 40 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | 353 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 390 |

| 31 Mawrth 2013 | Cronfa ddata Adran 29 |
|---|---:|
| | £'000 |
| **Prisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 0 |
| Ychwanegiadau | 390 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 390 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 0 |
| Cost am y cyfnod | 0 |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 0 |
| | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 390 |

## 7. Asedau nad ydynt yn gyfredol

### *Eiddo, peiriannau ac offer*

| 31 Mawrth 2014 | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 117 | 252 | 369 |
| Ychwanegiadau | 9 | 58 | 67 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 126 | 310 | 436 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2013 | 78 | 177 | 255 |
| Newid yn y cyfnod | 18 | 50 | 68 |
| Ar 31 Mawrth 2014 | 96 | 227 | 323 |
| | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2014** | **30** | **83** | **113** |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **39** | **75** | **114** |

Mae'r holl eiddo yn eiddo llwyr i'r Awdurdod heb unrhyw atebolrwydd ariannol cysylltiedig.

| 31 Mawrth 2013 | Dodrefn, gosodiadau a ffitiadau | Offer TG | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Prisiad** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 117 | 238 | 355 |
| Ychwanegiadau | - | 14 | 14 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 117 | 252 | 369 |
| | | | |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2012 | 62 | 131 | 193 |
| Newid mewn blwyddyn | 16 | 46 | 62 |
| Gwerthiannau | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2013 | 78 | 177 | 255 |
| | | | |
| **Gwerth net yn y llyfrau** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2013** | **39** | **75** | **114** |
| Ar 31 Mawrth 2012 | 55 | 107 | 162 |

## 8. Symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau eraill cyfredol

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 85 | 102 |
| Rhagdaliadau | 193 | 189 |
| **Cyfanswm masnach ac elfennau derbyniadwy eraill** | **278** | **291** |

Nid oes unrhyw symiau masnach nac asedau eraill sy'n daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### *Gweddill o fewn llywodraeth*

Mae gweddill o fewn llywodraeth yn y cyfansymiau ar gyfer symiau masnach sy'n dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 3 | 21 |
| Gweddillion gydag awdurdodau lleol | 145 | 141 |
| Cyfanswm gweddillion o fewn llywodraeth | **148** | **162** |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i lywodraeth | 130 | 129 |
| **Cyfanswm masnach ac elfennau derbyniadwy eraill** | **278** | **291** |

## 9. Arian parod a chyfatebol i arian parod

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Ebrill 2013 | 206 | 155 |
| Newidiadau net mewn arian a chyfatebol i arian parod | 50 | 51 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **256** | **206** |
| *Roedd y balans canlynol wedi eu cadw yn:* | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 253 | 205 |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 3 | 1 |
| Balans ar 31 Mawrth 2014 | **256** | **206** |

## 10. Symiau masnach taladwy ac atebolrwydd arall cyfredol

Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 73 | 47 |
| Trethu a nawdd cymdeithasol | 52 | 41 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 128 | 134 |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **253** | **222** |

Nid oedd unrhyw symiau masnach taladwy nac atebolrwydd arall yn daladwy wedi mwy na blwyddyn.

### *Gweddill o fewn llywodraeth*

Mae gweddill o fewn llywodraeth yn y cyfansymiau ar gyfer symiau masnach sy'n daladwy ac atebolrwydd cyfredol eraill fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gweddillion gyda chyrff llywodraeth ganolog eraill | 53 | 49 |
| Gweddillion gyda chyrff GIG | - | 4 |
| Cyfanswm gweddillion o fewn llywodraeth | **53** | **53** |
| Gweddillion gyda chyrff allanol i lywodraeth | 200 | 169 |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **253** | **222** |

## 11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Darpariaeth HMRC |
|---|---|
| | £'000 |
| Balans ar 31 Mawrth 2013 | 6 |
| Yn codi yn ystod y cyfnod | 6 |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd | (6) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2014** | **6** |

Mae’r ddarpariaeth HMRC ar 31 Mawrth 2014 yn cynrychioli atebolrwydd a amcangyfrifir yr Awdurdod ar gyfer treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol parthed costau teithio a chynhaliaeth aelodau’r Bwrdd.

## 12. Asedau ac atebolrwydd amodol

### *Asedau*

Cafwyd penderfyniad ar un achos Uchel Lys o blaid yr Awdurdod erbyn 31 Mawrth 2014; fodd bynnag, nid yw cwantwm llawn y setliad wedi ei benderfynu erbyn y dyddiad hwnnw.

### *Rhwymedigaethau*

Roedd yna 11 achos Uchel Lys dan rymoedd Adran 29 yr Awdurdod heb eu pennu ar 31 Mawrth 2013. Felly roedd ansicrwydd, ar y dyddiad hwnnw, o ran y canlyniadau ariannol cysylltiedig hyd nes y gwneir dyfarniad terfynol.

Gallai dyfarniad gan yr Uchel Lys ganiatáu adfer y costau hyn gan yr Awdurdod neu, godi tâl ar yr Awdurdod am gostau’r corff rheoleiddio a’i weithiwr cofrestredig.

## 13. Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar ddyddiadau’r datganiad safle ariannol.

## 14. Ymrwymiadau dan brydlesau

### *Prydlesi gweithredol*

Mae costau’r Awdurdod yn cynnwys taliadau rhent a thâl gwasanaeth dan renti prydles gweithredol.

Roedd gan yr Awdurdod yr oblygiadau canlynol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo:

| Adeiladau | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 267 | 267 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 156 | 423 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau dan brydlesi gweithredol** | **423** | **690** |

Mae’r Awdurdod yn is-osod ei eiddo i ddau is-denant ac yn cydnabod derbynion rent a thâl gwasanaeth o is-osod fel incwm.

Rhoddir cyfanswm isafswm derbynion les sy'n daladwy i'r Awdurdod dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod:

| Isafswm derbynion is-osod yn y dyfodol | 31 Mawrth 2014 | 31 Mawrth 2013 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 93 | 112 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 54 | 177 |
| **Cyfanswm isafswm derbynion is-osod** | **147** | **289** |

### *Prydlesi cyllid*

Nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw brydlesau ariannol yn y cyfnod i 31 Mawrth 2014

## 15. Partïon cysylltiedig

Mae'r Awdurdod yn atebol yn y pen draw i Senedd y Deyrnas Unedig.

Mae'r Awdurdod yn gorff cyhoeddus annosbarthedig. Er ei fod yn dal i gael ei ariannu gan yr Adran Iechyd, mae'n dal i gael ei noddi gan yr Adran.

Ystyrir yr Adran Iechyd i fod yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2014, darparodd yr Adran Iechyd gyfanswm cymorth grant o £2.83miliwn (2012/13: £30.30m).

Derbyniodd yr Awdurdod gyfraniadau cyllid tuag at ei weithgareddau yn y flwyddyn gan ei weinyddiaethau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon (£0.05 miliwn), Yr Alban (£0.18 miliwn), a Chymru (£0.10 miliwn). Yn 2012/13, derbyniodd yr Awdurdod £0.06 miliwn gan Ogledd Iwerddon, £0.20 miliwn gan yr Alban a £0.11 miliwn gan Gymru.

Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer y Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, sydd ar gael ar y wefan. O bryd i'w gilydd, bydd yr Ysgrifennydd Gweithredol yn diweddaru'r gofrestr i adlewyrchu unrhyw newid ym muddiannau aelodau'r Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2014, ni chyflawnodd unrhyw aelod drafodion partïon cysylltiedig gyda'r Awdurdod.

Gofynnwyd i'r uwch dîm rheoli hefyd ddatgelu unrhyw drafodion trydydd parti cysylltiedig. Yn ystod 2013/14, ni fu unrhyw ddatgeliadau.

## 16. Colledion a thaliadau arbennig

Ni chafwyd unrhyw golledion materol na thaliadau arbennig yn y cyfnod.

## 17. Ôl ddatganiad o ddigwyddiadau sefyllfa ariannol

- Diweddariad ar drefniadau ardoll
- Statws trefniadau ar gyfer rheoleiddio gweithwyr iechyd yn ychwanegol i adolygiad Comisiwn y Gyfraith
- Diweddariad ar benodiadau'r Awdurdod i'w Fwrdd.

Awdurdodwyd cyhoeddi'r cyfrifon hyn ar 16 Mehefin gan y Swyddog Cyfrifyddu

## 18. Arfau Ariannol

### *Rheoli risg ariannol*

Mae safon adrodd ariannol IFRS 7 yn gofyn am ddatgelu rôl arfau ariannol yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid risgiau mae corff yn wynebu wrth gyflawni ei weithgareddau.

Mae perthynas yr Awdurdod gyda'r Adran Iechyd, a'r modd y'i hariennir, yn golygu ei fod wedi ei amddiffyn. Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod rymoedd cyfyngedig i fenthyg neu fuddsoddi cronfeydd dros ben ac mae ei asedau ac atebolrwydd ariannol wedi eu creu gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd; felly'n mae'r effaith ar yr arfau ariannol o newid y risg wedi ei leihau eto.

Mae dyledwyr a chredydwyr fydd yn aeddfedu neu'n daladwy o fewn 12 mis i ddyddiad y datganiad o safle ariannol wedi eu hepgor o bob datguddiad.

### *Risg arian tramor*

Mae'r Awdurdod yn sefydliad domestig gyda'r mwyafrif helaeth o drafodion, asedau ac atebolrwydd wedi eu seilio yn y Deyrnas Unedig ac ar Sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithredoedd dramor. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau yn y gyfradd gyfnewid.

### *Risg cyfradd llog*

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gymorth grant gan yr Adran Iechyd a chyfraniadau ariannol gan weinyddiaethau datganoledig. Felly ni effeithir yr Awdurdod rhyw lawer gan amrywiaethau cyfradd llog.

Ar 31 Rhagfyr 2014, roedd gan yr Awdurdod falans arian parod nad yw'n dwyn llog o £256,000.

### *Risg credyd*

Gan y daw'r rhan fwyaf o incwm cyllid yr Awdurdod o'r Adran Iechyd, gyda chyfraniadau o'r gweinyddiaethau datganoledig, ni effeithir rhyw lawer ar yr Awdurdod gan risg credyd.

### *Risg dirwyn i ben*

Mae’r Awdurdod yn dibynnu’n bennaf ar gymorth grant gan yr Adran Iechyd, a ariennir gan adnoddau a etholir yn flynyddol gan y Senedd, a chyfraniadau gan weinyddiaethau datganoledig ac felly mae'r perygl o ddirwyn yr Awdurdod i ben yn isel iawn.

ISBN 978-1-4741-0227-8